Barnwriaeth Cymru a Lloegr



# Adroddiad yr Arglwyddes Brif Ustus 2025

Annibynnol, Diduedd, Uniondeb

Barnwriaeth Cymru a Lloegr

# Adroddiad yr Arglwyddes Brif Ustus 2025

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 5(1) Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.judiciary.co.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn website.enquiries@judiciary.uk

ISBN 978-1-5286-6029-7

E03454262

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolydd Swyddfa Llyfrfa Ei Fawrhydi

Cyhoeddwyd gan: Y Swyddfa Farnwrol
11th Floor Thomas More Building,
Royal Courts of Justice,
Strand,
Llundain WC2A 2LL
www.judiciary.uk

# Cynnwys


**Rhagymadrodd gan yr Arglwyddes Brif Ustus** 2

**Barnwriaeth Cymru a Lloegr** 8

- Llywodraethu Barnwrol 9
- Aelodau'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol 10
- Y Bwrdd Gweithredol Barnwrol 12
- System y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr 15

**Gwaith barnwyr ac ynadon** 20

- Sifil 21
- Troseddol 26
- Teulu 34
- Cymru 36

**Y Farnwriaeth Fodern** 38

- Wythnos waith yr Arglwyddes Brif Ustus 40
- Ymddygiad a Disgyblaeth 41
- Amrywiaeth a Chynhwysiant 42
- Cyfathrebiadau Barnwrol Mewnol 44
- Arweinyddiaeth 44
- Recriwtio a Phenodiadau 45
- Hyfforddiant 46
- Lles 47
- Deallusrwydd Artiffisial 48

**Ymgysylltiadau Allanol a Rhyngwladol** 50

- Cyfathrebiadau Allanol 51
- Y Proffesiwn Cyfreithiol 53
- Ymgysylltu ag Ysgolion 53
- Tryloywder a Chyfiawnder Agored 54
- Gweithio gyda'r Llywodraeth a'r Senedd 55
- Rhyngwladol 57

**Gweithgarwch Arall** 60

- Gweithgarwch Barnwrol 61
- Gweithgarwch Ategol 63

**Myfyrdodau'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol** 64

**Geirfa** 70

**Llyfryddiaeth** 72

# Rhagymadrodd gan yr Arglwyddes Brif Ustus

**Dyma fy ail adroddiad blynyddol, yn amlinellu gwaith y farnwriaeth rhwng Hydref 2024 a Medi 2025. Bydd ei gyhoeddiad yn dilyn fy ail ben-blwydd yn y swydd – amser priodol i fyfyrio ar yr hyn yr wyf wedi'i ddysgu a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n gyfle i gynyddu tryloywder ac i feithrin dealltwriaeth o waith y farnwriaeth. Mae adroddiad eleni hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y mae'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn gweithredu, a gwybodaeth am lywodraethiant y farnwriaeth.**

Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i'm tri amcan allweddol: i) cydnabod a hyrwyddo ein cryfderau; ii) meithrin undod barnwrol; a iii) lleihau ôl-groniadau, gwella amseroldeb a pherfformiad.

Fodd bynnag, y brif thema dros y cyfnod adrodd hwn, o fewn a thu allan i'r farnwriaeth, yw mai cyfnod o newid fu hwn.

Mae'r flwyddyn gyfreithiol wedi nodi ymddeoliad nifer o farnwyr eithriadol ar bob lefel o'r farnwriaeth, gan gynnwys ymadawiadau nodedig o'r Llys Apêl: Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (Arglwydd Ustus Lindblom), Is-lywydd Adran Sifil y Llys Apêl (Arglwydd Ustus Underhill) ac Is-lywydd Adran Droseddol y Llys Apêl (Arglwydd Ustus Holroyde). Daeth tymor Arglwydd Ustus Holroyde i ben ym mis Gorffennaf a bydd yn ymddeol yn fuan. Bydd Canghellor yr Uchel Lys (Syr Julian Flaux), Arglwyddes Ustus Macur ac Arglwyddes Ustus Nicola Davies hefyd yn ymddeol ym mis Hydref. Bu'n fraint ac yn bleser gweithio gyda phob un ohonynt ac rwy'n diolch iddynt am eu gwasanaeth.

O ganlyniad, bydd aelodaeth Y Bwrdd Gweithredol Barnwrol a chyd-farnwyr arweiniol yn edrych yn wahanol yn y flwyddyn gyfreithiol nesaf, wrth imi groesawu o'r newydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (Arglwydd Ustus Dingemans), Canghellor yr Uchel Lys (Arglwydd Ustus Birss), Is-lywydd Adran Droseddol y Llys Apêl (Arglwydd Ustus Edis), Is-lywydd Adran Sifil y Llys Apêl (Arglwydd Ustus Bean), a chwe phenodiad newydd i'r Llys Apêl (Mrs Ustus Cockerill, Mr Ustus Dove, Mr Ustus Foxton, Mrs Ustus May, Mr Ustus Miles a Mrs Ustus Yip).

Bu newyddion trist iawn hefyd, gyda sawl aelod o'r farnwriaeth yn marw yn y swydd, gan gynnwys Arglwydd Ustus William Davis. Cadeiriodd Arglwydd Ustus William Davis y Cyngor Dedfrydu, yn dilyn cyfnod o arwain ar Gyfiawnder Ieuenctid, ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol. Roedd yn farnwr dewr â medrusrwydd eithriadol yng nghyfraith droseddol.

Y tu allan i'r farnwriaeth, cafwyd Arglwydd Ganghellor newydd ym mis Gorffennaf 2024 yn dilyn yr etholiad cyffredinol, swydd a ddaliwyd ganddi hyd ddechrau mis Medi



eleni. Diolchaf iddi am ei hamser a'i chydweithrediad yn y swydd; yn ystod y cyfnod hwn datblygwyd perthynas adeiladol a chynhyrchiol rhyngom. Edrychaf ymlaen yn awr at weithio gyda'i holynydd, a fydd yn tyngu llw ar ddechrau'r flwyddyn gyfreithiol nesaf.

O dan lywodraeth newydd, bu'r system cyfiawnder troseddol yn ffocws canolog i ddiwygio. Ym mis Mai ac yn gynnar ym mis Gorffennaf eleni, cyhoeddwyd y ddau adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd – Adolygiad Dedfrydu Annibynnol David Gauke ac Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol Syr Brian Leveson. Cynhaliwyd yr adolygiadau hyn mewn ymateb uniongyrchol i dwf yr ôl-groniadau o achosion yn y Llys y Goron a'r argyfwng capasiti yn y carchardai. Mae'r farnwriaeth wedi cymryd rhan briodol – a, gobeithiaf, defnyddiol – gyda'r ddau adolygiad. Rwyf drwy'r amser wedi annog y llywodraeth i sicrhau bod pob diwygiad yn cael ei reoli'n dda, heb ei frysio ac yn cael digon o adnoddau. Yn ogystal, ni fydd llawer o'r newidiadau a gynigir yn lleddfu'r heriau uniongyrchol sy'n wynebu'r llysoedd troseddol. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r farnwriaeth, mae cyfanswm yr achosion agored yn y Llys y Goron wedi parhau i dyfu. Oherwydd cyfyngiadau ariannol a osodwyd, nid yw'r farnwriaeth eto'n gweithredu ar uchafswm nifer y diwrnodau eistedd, er ein bod yn parhau i weithio gyda'r Arglwydd Ganghellor i gyrraedd y lefel hon. Rhaid i'r ynadaeth fod wedi'i harfogi, ei hyfforddi a'i hariannu'n ddigonol i ddiwallu anghenion presennol a'r dyfodol.

Bu sawl ymgynghoriad i sicrhau bod yr ynadaeth yn addas ar gyfer y dyfodol, gan ganolbwyntio ar Ardaloedd Cyfiawnder Lleol, llywodraethiant a'r Weithdrefn Un Ynad. Rhaid i'r ariannu fod yn ddigonol ar gyfer 'yma ac yn awr' yn ogystal â newid yn y dyfodol.

Cadarnhawyd canlyniad Adolygiad Gwariant y Llywodraeth ym mis Gorffennaf. Dechreuodd y broses dyrannu diwrnodau eistedd yn gynharach nag arfer, yn yr hydref. Mae hyn yn gam cadarnhaol ac rydym yn gobeithio am setliad cynnar er mwyn galluogi'r farnwriaeth i gynllunio ymlaen llaw a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Rwyf wedi pwysleisio'n gyson na ddylai'r sbotolau fod ar yr awdurdodaeth troseddol yn unig. Ni ellir anghofio am yr awdurdodaethau sifil, teulu a thribiwnlys, lle mae anghenion ariannu a mentrau hanfodol hefyd. Yn yr awdurdodaeth sifil, nid yw digideiddio yn y Llys Sirol wedi'i gwblhau. Bu gwell mynediad at gyfiawnder a chyflymder o ran datrys anghydfodau sifil drwy raglenni diweddar, gan gynnwys y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychan. Yn yr awdurdodaeth teulu, mae llwyth achosion agored achosion cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat wedi gostwng i'r hyn yr oeddynt cyn y pandemig. Mae'r Cynllun Braenaru yn llwyddiant ysgubol, fel y mae'r Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol. Mae'r Cynllun Peilot Adrodd wedi'i gwblhau ac wedi'i ymestyn i bob llys teulu, gan hwyluso mwy o dryloywder ac, yn ei dro, dealltwriaeth gyhoeddus ddyfnach o gyfraith teulu.

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, bu'n rhaid i farnwyr weithio o fewn tirwedd gynyddol heriol: un sydd wedi cynnwys newidiadau polisi cyson a beirniadaeth anghywir ac annheg, weithiau'n bersonol, gyda bygythiadau diogelwch cysylltiedig.

Yn y cyd-destun hwn, adroddaf bod tasglu diogelwch newydd wedi'i sefydlu eleni, dan arweiniad Mrs Ustus Yip. Mae'r tasglu'n ceisio cynyddu dealltwriaeth deiliaid swyddi barnwrol o sut y gallant wella eu diogelwch eu hunain. Ymhlith pethau eraill, mae wedi lansio hyfforddiant diogelwch digidol newydd i'r farnwriaeth. Bydd hefyd yn gweithio ar y cyd ag arbenigwyr o'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill i sicrhau bod y systemau a'r gweithdrefnau gorau posibl ar waith i ddiogelu'r farnwriaeth. Yn ogystal, mae Mr Ustus Spencer yn cadeirio'r Pwyllgor Diogelwch ar Gyngor y Barnwyr sy'n gyfrifol am gydlynu polisi diogelwch barnwrol a chynnig cefnogaeth a chyngor i ddeiliaid swyddi barnwrol sy'n wynebu bygythiadau penodol. Rwy'n falch bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi neilltuo cyllid cyfalaf i sicrhau y gall Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF) ddiweddaru ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd yn ddigonol i sicrhau ei bod yn ddiogel.

Rwyf wedi cynnal fy nhrefn flynyddol arferol o weithgareddau, gan gynnwys teithiau o amgylch pob un o'r chwe Cylchdaith barnwrol. Mae'r ymweliadau hyn yn gyfle imi siarad â barnwyr ac ynadon, staff a gweithwyr proffesiynol y gyfraith fel ei gilydd. Maent hefyd yn caniatáu imi ymgymryd â gweithgareddau allgymorth y tu allan i Lundain, megis ymweliad ag Outwood Academy Riverside yn Middlesbrough ac i dderbyniad i nodi gwaith Cronfa

Ysgoloriaeth Cylchdaith Gogledd-ddwyrain Lloegr. Mae'r uchafbwyntiau gyda'r barnwyr wedi cynnwys arsylwi yn y llys gyda'r Barnwr Rhanbarth Terry Phillips yn Newcastle, gydag Ei Hanrhydedd y Barnwr Susan Jones yn Coventry, a gyda'r Barnwr Rhanbarth Stewart Hughan yn y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn Llundain.

Ym mis Tachwedd 2024, rhoddais dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder. Ym mis Chwefror 2025, cynhaliais fy nghynhadledd i'r wasg flynyddol a rhoddais dystiolaeth i Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi. Neges allweddol ar bob achlysur oedd yr angen i ddiogelu annibyniaeth a diogelwch barnwrol, gan daro'r cydbwysedd cywir rhwng dadl gyhoeddus iach a chadarn ar y naill law ac ymosodiadau anhyblyg, anghywir a pheryglus ar y farnwriaeth ar y llaw arall.

Yn gysylltiedig â hyn, mae'n galonogol bod cynifer o Aelodau Seneddol wedi manteisio ar y gwahoddiad i ymweld â'u canolfan llys neu dribiwnlys lleol. Yn dilyn gwahoddiad uniongyrchol ym mis Ebrill 2025 i bob AS, mae 47 o ymweliadau eisoes wedi digwydd, gyda 42 wedi'u trefnu ar gyfer dyddiadau yn y dyfodol a 39 arall yn cael eu cynllunio. Dylai'r ymweliadau alluogi ASau i ddysgu mwy am realiti'r system gyfiawnder fodern – gyda'r nod o'u helpu i gefnogi eu hetholwyr yn y ffordd orau a deall arwyddocâd gwahanu pwerau a'r rheolaeth y gyfraith.

Rwyf wedi parhau i fwynhau fy ngweminarau ar-lein 'fforwm agored' gyda chydweithwyr barnwrol amrywiol. Canolbwyntiodd y flwyddyn hon ar sgyrsiau gydag aelodau o'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol a barnwyr arweiniol. Ymhlith y gwesteion oedd Arglwyddes Ustus King, Arglwyddes Ustus Whipple, yr Uwch Farnwr Llywyddol, y Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol, Canghellor yr Uchel Lys a'r Ynad Arweiniol Cenedlaethol.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd lansio Strategaeth Farnwrol ar gyfer Ymgysylltu Rhyngwladol pum mlynedd newydd ym mis Mai 2025. Roedd y digwyddiad lansio yn Llys 4 a Neuadd Fawr y Llysoedd Barn Brenhinol yn gyfle pwysig i hyrwyddo gwerth ein hymgysylltiad barnwrol rhyngwladol ymhlith cynulleidfa eang, gan gynnwys y Trysorlys, Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, Dinas Llundain a'r proffesiwn cyfreithiol yn gyffredinol. Mynychais hefyd Gynhadledd Cyfraith y Gymanwlad ym Malta ym mis Ebrill 2025, a chefais gyfle i gyfarfod â barnwriaeth Canada yn y DU ym mis Gorffennaf 2025, gan gynnwys cyfarfod â'r naw aelod o Lys Goruchaf Canada. Parhaodd rhaglen hyfforddi ryngwladol drawiadol barnwriaeth Cymru a Lloegr, gyda hyfforddiant wedi'i ddarparu yn Wcráin, Malaysia, Albania a Nigeria. Ym mis Medi 2025, ochr yn ochr ag Arglwydd Reed, mynychais yr uwchgynhadledd J-20 yn Ne Affrica. Bu i Feistr y Rholiau fynychu Cynhadledd Sefydliad Cyfraith Ewrop, a mynychodd lawer o gydweithwyr barnwrol gynhadledd Cymdeithas Ynadon a Barnwyr y Gymanwlad yn Y Gambia. Mae pob un o'r gweithgareddau hyn, a wneir y tu allan i ymrwymiadau eistedd ac yn aml yn ystod amser personol, yn cynnig cyfle i farnwriaeth Cymru a Lloegr rannu arfer da, cyfnewid gwybodaeth a thrafod pynciau pwysig, megis diogelwch barnwrol a deallusrwydd artiffisial, gyda chydweithwyr rhyngwladol.

Cyflawniadau eraill eleni yw'r cydweithredu barnwrol parhaus ar ddatblygiad llysoedd Dinas Llundain – sydd ar y trywydd cywir i agor yn 2027 fel y trefnwyd. Bu cynnydd sylweddol hefyd ym maes mynediad at gyfiawnder a chyfiawnder agored. Mae'r Bwrdd Tryloywder a Chyfiawnder Agored – Bwrdd sy'n anelu at foderneiddio a chydlynu sut y caiff cyfiawnder agored ei gyflwyno ar draws holl lysoedd a thribiwnlysoedd Cymru a Lloegr – wedi cynnal ymarfer ymgysylltu cyhoeddus cynhwysfawr i brofi a mireinio ei brif amcanion ac i nodi pedwar cam ymarferol ar gyfer pob llys a thribiwnlys: mynediad amserol ac effeithiol at wybodaeth am achosion, mynediad at ddogfennau craidd, mynediad effeithiol at wrandawiadau'n gyhoeddus a hyrwyddo egwyddorion cyfiawnder agored pan na ellir cynnal gwrandawiad yn gyhoeddus. Mae sawl cynllun peilot ar y gweill, ac mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF) wedi lansio pencampwyr Cyfiawnder Agored (arweinwyr rhanbarthol dynodedig) i ddangos ei ymrwymiad i gefnogi cyfiawnder agored mewn termau ymarferol.

Mae'r uwch farnwriaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni barnwriaeth amrywiol a chynhwysol lle caiff pawb eu trin ag urddas a pharch. Datblygiad croesawus eleni oedd bod ystadegau amrywiaeth y farnwriaeth yn cynnwys, am y tro cyntaf, ddata ar anabledd diolch i lefelau uwch o hunan-adrodd a gyrhaeddodd y trothwy ar gyfer cyhoeddi.

Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddwyd y pumed Arolwg Agwedd Barnwrol, ac am y tro cyntaf, roedd yr arolwg yn cynnwys Crwneriaid yng Nghymru a Lloegr. Arhosodd y gyfradd ymateb i'r arolwg ar lefel uchel iawn, gyda 94% o'r farnwriaeth gyflogedig a 55% o farnwyr ac aelodau sy'n derbyn ffi yn ei gwblhau. Dangosodd y canlyniadau fod barnwyr yn parhau i fod yn gryf eu hymrwymiad i'r farnwriaeth ac i'r rôl y mae barnwyr yn ei chwarae yn y gymdeithas, ac ar draws yr awdurdodaethau mae barnwyr yn parhau i adrodd lefel uchel o foddhad cyffredinol yn y swydd; bu cynnydd hefyd yn nifer y barnwyr cyflogedig a ddywedwyd y byddent yn argymell swydd farnwrol cyflogedig.

Datgelodd yr arolwg hefyd feysydd o bryder ac fe amlygodd ble y byddwn yn canolbwyntio ein sylw dros y blynyddoedd nesaf. Yn arbennig, er nad yw'r mwyafrif helaeth o farnwyr ac aelodau yn teimlo eu bod wedi bod yn destun bwlio, aflonyddu a/neu wahaniaethu, mae lleiafrif o hyd sy'n profi hyn. Dangosodd y canlyniadau hefyd, mewn llawer o awdurdodaethau, fod llwyth gwaith a straen yn parhau i fod yn faterion o bryder.

Mae gwaith parhaus i sicrhau cefnogaeth ddigonol ar gyfer iechyd, lles a llesiant, yn ogystal â chamau i fynd i'r afael ag ymddygiad barnwrol annerbyniol, wedi parhau i fynd rhagddo. Rwyf wedi bod yn glir nad yw'r uwch farnwriaeth yn ceisio esgusodi nac israddio ymddygiad amhriodol gan farnwyr. Rwy'n gwbl ymrwymedig i farnwriaeth fodern, amrywiol a chynhwysol sy'n cadarnhau ein gwerthoedd o uniondeb, tegwch a pharch at bawb.

Mae gennym safonau ymddygiad clir sy'n ddisgwyliedig o bob deiliad swydd barnwrol, a gefnogir gan hyfforddiant a chefnogaeth i farnwyr ar bob lefel, yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldebau arweiniol. Mae gwaith i adolygu'r llwybrau sydd ar gael i godi pryderon a datrys materion ac i herio a newid ymddygiad annerbyniol yn mynd rhagddo.

Ni allwn beidio â sôn yn y rhagymadrodd hwn am ddigwyddiad ysbrydoledig lansiad Cymdeithas Barnwyr Du y DU (UKABJ) yn y Goruchaf Lys ym mis Gorffennaf 2025. Dim ond 1% o farnwyr yng Nghymru a Lloegr sy'n ddu – ffigur sy'n parhau i fod yn ystyfnig o isel. Mae mwy o waith i'w wneud gan y proffesiynau a'r farnwriaeth i wella'r sefyllfa, ac rwy'n hyderus y bydd y UKABJ yn darparu llais uchel ac unedig i farnwyr du wrth siapio'r gwaith hwn.



Yn olaf, hoffwn fynegi fy niolch i swyddogion y Swyddfa Farnwrol a GLITEF sydd wedi parhau i weithio gyda'r farnwriaeth i ddarparu cymorth amhrisiadwy wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr dros y flwyddyn gyfreithiol ddiwethaf.

Mae'n cymryd dewrder a gwydnwch i fod yn farnwr neu'n ynad, yn grwner neu'n aelod nad yw'n gyfreithiol gymwys, ac i wneud iawn â phob math o bobl, heb ofn na ffafr, heb hoffter na drwgdeimlad. Diolchaf iddynt oll am eu hymroddiad parhaus i sicrhau rheolaeth y gyfraith a darparu cyfiawnder dros y flwyddyn ddiwethaf mewn cyfnodau o newid – ac o her.

**Y Gwir Anrhydeddus, Y Farwnes Carr o Walton-on-the-Hill**



# Barnwriaeth Cymru a Lloegr



Mae barnwriaeth Cymru a Lloegr yn cynnwys barnwyr, ynadon, aelodau tribiwnlysoedd a chrwneriaid. Gyda'i gilydd, mae'r unigolion hyn yn cynnal rheolaeth y gyfraith.

Mae barnwyr ac aelodau eraill o'r farnwriaeth yn goruchwylio achosion mewn gwahanol fathau o lysoedd a thribiwnlysoedd, ac ym meysydd cyfraith amrywiol, ledled y wlad.

Mae'r llysoedd wedi'u strwythuro'n hierarchaidd ar draws awdurdodaethau gwahanol. Y prif awdurdodaethau yng Nghymru a Lloegr yw sifil, troseddol, teulu, tribiwnlysoedd, milwrol a chrwneriaid. O fewn yr awdurdodaethau hyn, mae gwahanol lefelau o lysoedd.

# Llywodraethu Barnwrol

O dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, trosglwyddwyd tua 400 o swyddogaethau statudol oddi wrth yr Arglwydd Ganghellor i'r Arglwydd/Arglwyddes Brif Ustus. Er enghraifft, yr Arglwydd/Arglwyddes Brif Ustus sydd nawr yn penderfynu ble mae barnwyr yn eistedd a pha fath o achosion a wrandewir ganddynt. I wneud hyn, caiff yr Arglwydd/Arglwyddes Brif Ustus gymorth gan gydweithwyr barnwrol, yn ogystal â staff gweinyddol y llysoedd.

Mae'r Arglwydd/Arglwyddes Brif Ustus yn arfer eu cyfrifoldebau gweithredol ac arweiniol drwy, a gyda chefnogaeth, Y Bwrdd Gweithredol Barnwrol (JEB) a Chyngor y Barnwyr, sy'n cynrychioli pob lefel o'r farnwriaeth.

# Aelodau'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol

**Mae aelodaeth y JEB yn cynnwys y canlynol:**



**Barwnes Carr o Walton-on-the-Hill**
Arglwyddes Brif Ustus Cymru a Lloegr



**Syr Geoffrey Vos**
Meistr y Rholiau



**Syr Julian Flaux**
Canghellor yr Uchel Lys



**Syr James Dingemans**
Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd



**Syr Colin Birss**
Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil



**Y Fonesig Eleanor King**
Cadeirydd Bwrdd y Coleg Barnwrol



**Y Fonesig Victoria Sharp**
Llywydd Adran Mainc y Brenin



**Syr Andrew McFarlane**
Llywydd yr Adran Deulu



**Syr Nicholas Green**
Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr



**Y Fonesig Philippa Whipple**
Barnwr Arweiniol dros Amrywiaeth a Chynhwysiant, Arweinyddiaeth, Datblygu a Lles



**Michelle Crotty**
Prif Weithredwr y Swyddfa Farnwrol

# Y Bwrdd Gweithredol Barnwrol

## Yr Arglwyddes Brif Ustus

Yr Arglwyddes Brif Ustus (LCJ) yw Pennaeth Barnwriaeth Cymru a Lloegr a Llywydd Llysoedd Cymru a Lloegr. Yr LCJ yw'r barnwr uchaf ei safle yng Nghymru a Lloegr.

Un o ddyletswyddau'r LCJ yw gwasanaethu fel Llywydd Adran Droseddol y Llys Apêl a Phennaeth Cyfiawnder Troseddol. Cefnogir yr LCJ yn y rolau hyn gan Lywydd Adran Mainc y Brenin (yn gweithredu fel Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Troseddol), Is-lywydd y Llys Apêl (Adran Droseddol), a'r Uwch Farnwr Llywyddol.

## Meistr y Rholiau

Meistr y Rholiau (MR) a Phennaeth Cyfiawnder Sifil yw'r ail farnwr uchaf ei safle yng Nghymru a Lloegr.

Yn wreiddiol, y MR oedd yn gyfrifol am gadw yn ddiogel siarteri, patentau a chofnodion o ddyfarniadau llys pwysig a ysgrifennwyd ar rholiau memrwn. Mae'r MR o hyd yn gyfrifol am ddogfennau o bwys cenedlaethol, gan gadeirio'r Cyngor Ymgynghorol ar Gofnodion ac Archifau Cenedlaethol.

Mae'r MR yn farnwr yn y Llys Apêl ac yn Llywydd ei Adran Sifil, ac mae'n gyfrifol am leoli a threfnu gwaith barnwyr yr adran hon yn ogystal â llywyddu mewn un o'i llysoedd.

Y MR presennol yw Syr Geoffrey Vos.

## Llywydd Adran Mainc y Brenin

Mae Llywydd Adran Mainc y Brenin (PKBD) yn gyfrifol am leoli a threfnu gwaith y fwyaf o dair Adran yr Uchel Lys. Yn ei ffurf lawn mae gan Adran Mainc y Brenin (KBD) 71 o farnwyr Uchel Lys ac mae ganddi'r awdurdodaeth fwyaf amrywiol. O natur y swydd, mae'r Llywydd yn farnwr yn y Llys Apêl.

Y PKBD presennol yw Y Fonesig Victoria Sharp.

## Llywydd yr Adran Deulu

Llywydd yr Adran Deulu (PFD), a Phennaeth Cyfiawnder Teuluol, sy'n arwain yr awdurdodaeth deulu.

Yn ogystal â'r Llywydd – sy'n aelod o'r Llys Apêl – mae gan yr Adran Deulu 19 o Farnwyr Uchel Lys. Mae'n delio â:

- Ysgariad, gan gynnwys anghydfodau ynghylch plant, eiddo neu arian;
- Mabwysiadu, wardiaeth a materion eraill sy'n ymwneud â phlant; a
- Dyfarniadau ar ran y rhai hynny na allant wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, er enghraifft dioddefwyr mewn cyflwr diymateb parhaol.

Mae'r Adran Deulu hefyd yn delio â materion profiant nad oes dadl yn eu cylch – cydnabod dilysrwydd ewyllys yn gyfreithiol – yng Nghofrestrfa Brofiant yr Adran Deulu yn Llundain, a'r 11 cofrestrfa brofiant yng Nghymru a Lloegr.

Y PFD presennol yw
Syr Andrew McFarlane.

## Canghellor yr Uchel Lys

Canghellor yr Uchel Lys (CHC) yw llywydd Adran Siawnsri yr Uchel Lys ac Is-lywydd y Llys Gwarchod. Mae'r CHC yn gyfrifol o ddydd i ddydd am weithrediad y Llysoedd Busnes ac Eiddo (B&PCs) yn Llundain a saith canolfan ranbarthol ar draws y wlad.

Mae gan y CHC gyfrifoldeb dros restrau Siawnsri'r B&PCs, gan gynnwys y Rhestr Fusnes, y Rhestr Ansolfedd a Chwmnïau, y Rhestr Eiddo Deallusol (gan gynnwys Patentau ac IPEC), y Rhestr Eiddo, Ymddiriedolaethau a Phrofiant, y Rhestr Cystadleuaeth, y Rhestr Ariannol (ar y cyd â'r Llys Masnach) a'r Rhestr Refeniw.

Y CHC presennol yw Syr Julian Flaux. O 1 Tachwedd 2025 ymlaen, yn dilyn ymddeoliad Syr Julian, Syr Colin Birss fydd y CHC.

## Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd

Mae Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (SPT) yn swydd farnwrol annibynnol a grëwyd gan y Senedd drwy Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Y SPT yw pennaeth annibynnol barnwriaeth y tribiwnlysoedd a gadwyd yn ôl yn y Deyrnas Unedig.

Y SPT yw arweinydd barnwrol mwy na 5,000 o ddeiliaid swyddi barnwrol, ac fe'i cefnogir gan 14 o Lywyddion Tribiwnlys.

Mae gan y SPT nifer o gyfrifoldebau statudol, sy'n cynnwys cynrychioli safbwyntiau barnwyr ac aelodau tribiwnlysoedd gerbron y Senedd, yr Arglwydd Ganghellor a Gweinidogion, a chyfrifoldeb dros hyfforddiant, lles a chanllawiau o fewn y tribiwnlysoedd.

Y SPT presennol yw Syr James Dingemans. Y SPT ar gyfer y rhan fwyaf o gyfnod adrodd y ddogfen hon oedd Syr Keith Lindblom, a wnaeth ymddeol o'r swydd ar 31 Gorffennaf 2025.

## Uwch Farnwr Llywyddol

Mae swyddogaethau Uwch Farnwr Llywyddol (SPJ) yn eang. Yn ogystal â bod yn aelod o fwrdd GLITEF, mae'r SPJ yn goruchwylio gwaith y Barnwyr Llywyddol ar bob Cylchdaith yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys bod â chyfrifoldeb cyffredinol am leoli barnwyr a dyrannu gwaith yn y llysoedd, a delio â materion personél barnwyr o dan lefel yr Uchel Lys. Mae gan y SPJ hefyd gyfrifoldeb arbennig dros yr ynadaeth ac mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt cyffredinol rhwng y farnwriaeth, y llysoedd ac adrannau'r Llywodraeth.

Y SPJ presennol yw Syr Nicholas Green.

Mae'r Dirprwy SPJ yn cefnogi'r SPJ yn y gwaith hwn. Y Dirprwy presennol yw Y Fonesig Amanda Yip.

## Cadeirydd Bwrdd y Coleg Barnwrol

Mae Cadeirydd Bwrdd y Coleg Barnwrol (CJCB) yn darparu arweinyddiaeth farnwrol uwch ar gyfer rhaglen hyfforddi'r Coleg a'i gyfeiriad. Mae'r CJCB yn cadeirio ei gorff llywodraethu, Bwrdd y Coleg Barnwrol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr ar draws barnwriaeth y llysoedd a'r tribiwnlysoedd. Mae'r CJCB yn arwain y Bwrdd ar osod strategaeth y Coleg a goruchwylio'r ddarpariaeth hyfforddiant gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael.

Y Fonesig Eleanor King yw Cadeirydd y Coleg Barnwrol. Fe'i phenodwyd ym mis

Gorffennaf 2020 ac mae ei thymor yn rhedeg hyd haf 2026.

## Barnwr Arweiniol dros Amrywiaeth a Chynhwysiant, Arweinyddiaeth, Datblygu a Lles

Mae rôl y Barnwr Arweiniol dros Amrywiaeth a Chynhwysiant, Arweinyddiaeth, Datblygu a Lles yn cynnwys cefnogi'r LCJ gyda'i chyfrifoldebau statudol i annog amrywiaeth o fewn y farnwriaeth, arwain datblygiadau pellach i hyrwyddo amrywiaeth o fewn y farnwriaeth a diwylliant cynhwysol. Ymysg gweithgareddau eraill, mae hyn yn cynnwys cadeirio Pwyllgor Amrywiaeth Barnwrol Cyngor y Barnwyr; goruchwylio'r gwaith o weithredu a gwerthuso Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y farnwriaeth; cydweithredu â chyrff cynrychioliadol y proffesiynau cyfreithiol a'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol; a chefnogi'r LCJ gyda gwaith y Fforwm Amrywiaeth Barnwrol, sef cynulliad o sefydliadau o bob rhan o'r sector cyfreithiol gyda'r diben o adnabod ffyrdd i gefnogi mwy o amrywiaeth o fewn y farnwriaeth.

Mae'r rôl hefyd yn cynnwys bod yn eiriolwr dros ddatblygiad arweinyddiaeth a gallu ar draws y farnwriaeth. O ran lles, mae'r gwaith yn cynnwys cefnogi'r LCJ gyda'i chyfrifoldebau statudol i gynnal trefniadau priodol ar gyfer lles y farnwriaeth, gan gynnwys goruchwylio'r ddarpariaeth llesiant i farnwyr.

Y Fonesig Philippa Whipple yw'r deiliad swydd presennol.

## Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil

Mae'r Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil (DHCJ) yn chwarae rhan bwysig yn arweinyddiaeth y System Cyfiawnder Sifil, gan gefnogi Meistr y Rholiau, sef Pennaeth Cyfiawnder Sifil, i ddarparu arweinyddiaeth ar gyfer y farnwriaeth sifil yn y llys sirol.

Maent hefyd yn aelod ex-officio o'r Cyngor Cyfiawnder Sifil a'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil.

Y DHCJ presennol yw Syr Colin Birss. O 1 Tachwedd 2025 ymlaen, yn dilyn penodiad Syr Colin i swydd Canghellor yr Uchel Lys, Y Fonesig Sara Cockerill fydd y DHCJ.



# System y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr

Yng Nghymru a Lloegr, mae system y llysoedd wedi esblygu a datblygu dros 1,000 o flynyddoedd. Fe ymdrinnir â gwahanol fathau o achosion mewn llysoedd penodol, gyda llwybrau gwahanol i'r Llys Apêl ac, o bosibl, i Oruchaf Lys y DU.

Bydd y rhan fwyaf o achosion troseddol yn dechrau yn y Llys Ynadon, a chaiff achosion troseddol mwy difrifol eu trosglwyddo i Lys y Goron. Bydd apeliadau o Lys y Goron yn cael eu gwrando gan Adran Droseddol y Llys Apêl.

Fel arfer, bydd achosion sifil yn dechrau yn y Llys Sirol. Eto, bydd apeliadau'n cael eu gwrando gan yr Uchel Lys ac yna'r Llys Apêl – ond gan adrannau gwahanol o'r llysoedd hynny.

Mae gan y system dribiwnlysoedd ei strwythur ei hun ar gyfer delio ag achosion ac apeliadau, ond gall penderfyniadau o wahanol siambrau'r Uwch Dribiwnlys, a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth, hefyd gael eu gwrando gan y Llys Apêl.

Os daw apêl gan y Llys Apêl o unrhyw un o'r llwybrau hyn, mae'n mynd i Oruchaf Lys y DU.

Mae strwythur y llysoedd yn berthnasol i Gymru a Lloegr; mae system y tribiwnlysoedd yn berthnasol i Gymru, Lloegr ac, mewn rhai achosion, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

## Sifil

Mae cyfiawnder sifil yn cwmpasu ystod eang o faterion lle mae unigolion, busnesau neu sefydliadau eraill yn ceisio datrys anghydfodau â'i gilydd neu sicrhau bod eu hawliau cyfraith breifat yn cael eu parchu. Mae'r awdurdodaeth yn delio ag ystod eang iawn o achosion - o hawliadau eithaf bach neu syml, er enghraifft nwyddau wedi'u difrodi neu adennill dyled, i hawliadau mawr rhwng cwmnïau rhyngwladol.

Fel arfer bydd barnwyr yn yr awdurdodaeth sifil yn gwneud dyfarniad o 'iawndal' ariannol i'r parti llwyddiannus, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r hawliad. Weithiau bydd y llys yn gwneud gorchymyn neu waharddeb yn mynnu bod ymddygiad diffiniedig yn digwydd neu'n dod i ben. Mae gan y llysoedd sifil broses i sicrhau bod dyfarniadau'n cael eu gorfodi.

**"Er mwyn cyflawni'r nod o ddod â chyfiawnder sifil i mewn i'r 21ain ganrif, rhaid inni greu system fodern sy'n addas ar gyfer y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu."**

Syr Geoffrey Vos
Meistr y Rholiau

## Troseddol

Daw achosion troseddol i'r llys ar ôl i erlynydd, fel arfer Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), benderfynu erlyn unigolyn am drosedd honedig. Gwrandewir y mwyafrif helaeth o achosion (dros 95%) yn y Llys Ynadon, naill ai gan banel o dri ynad – gwirfoddolwyr o'r gymuned leol heb gymwysterau cyfreithiol – neu gan Farnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) sydd â chymwysterau cyfreithiol. Maent yn gwrando ar y dystiolaeth ac yn penderfynu a yw'r unigolyn yn euog neu'n ddieuog. Os penderfynir bod y diffynnydd yn euog, bydd yr ynadon neu'r Barnwr Rhanbarth (Llys Ynadon) yn rhoi dedfryd neu'n anfon yr achos i'r Llys y Goron os nad yw eu pwerau'n ddigonol i adlewyrchu difrifoldeb yr achos.

Gwrandewir achosion troseddol mwy difrifol yn y Llys y Goron, fel arfer gan Farnwr Cylchdaith neu Gofiadur yn eistedd gyda rheithgor ond, yn yr achosion mwyaf difrifol, gall Barnwr Uchel Lys yn eistedd gyda rheithgor wrando'r achos. Yn y Llys y Goron, y barnwr sy'n gyfrifol am sicrhau treial teg ac esbonio'r gyfraith berthnasol i'r rheithgor. Y rheithgor sy'n gyfrifol am benderfynu a yw'r diffynnydd yn euog neu'n ddieuog.

Os bydd y rheithgor yn canfod y diffynnydd yn euog, yna bydd y barnwr yn penderfynu ar ddedfryd briodol. Bydd y ddedfryd yn dibynnu ar nifer o ffactorau: yn bennaf difrifoldeb y drosedd, effaith y drosedd ar y dioddefwr, a'r gyfraith berthnasol. Gall y ddedfryd gynnwys carchar, dedfryd ohiriedig, dedfryd gymunedol, dirwy neu ryddhad.

Mae Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr yn gorff annibynnol, anadrannol sy'n cyhoeddi canllawiau ar gyfer y mwyafrif o ddedfrydau i sicrhau mwy o gysondeb wrth ddedfrydu, ar yr un pryd â chynnal annibyniaeth y farnwriaeth.

> **Ar adegau o newid, mae'n hollbwysig ystyried safbwyntiau o bob rhan o'r farnwriaeth a gweld sut mae pethau'n gweithio 'ar lawr gwlad' o hyd."**
>
> Y Fonesig Victoria Sharp
> Llywydd Adran Mainc y Brenin





## Teulu

Mae'r system cyfiawnder teuluol yn bodoli i helpu teuluoedd i ddatrys anghydfodau teuluol yn gyflym a gyda'r isafswm posib o aflonyddwch i'r rhai hynny sy'n ymwneud â'r achos.

Mae achosion llys teulu yn fwy anffurfiol na rhai mewn llys troseddol, gan adlewyrchu yn aml natur sensitif achosion teuluol a'r angen i leihau gofid i'r partïon.

Cynhelir gwrandawiadau yn y llysoedd teulu yn breifat, ond gall y wasg a blogwyr cyfreithiol fynychu gwrandawiad a riportio ar yr hyn maent yn gweld a chlywed, os caniateir gorchymyn tryloywder. Mae darpariaethau adrodd agored yn golygu bod rhagdybiaeth bod gorchymyn tryloywder, sy'n diogelu anhysbysrwydd y plant a'u teuluoedd, yn cael ei ganiatáu, oni bai bod rheswm dilys dros beidio â gwneud hynny.

## Tribiwnlysoedd

Mae'r tribiwnlysoedd haen gyntaf yn llysoedd arbenigol. Mae eu barnwyr a'u haelodau yn gwrando amrywiaeth eang o achosion sy'n ymwneud â threthi, cyflogaeth, a mewnfudo a lloches. Mae'r Uwch Dribiwnlys a'r Tribiwnlys Apeliadau Cyflogaeth yn gwrando apeliadau sy'n herio rhai penderfyniadau tribiwnlys.

Mae Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun i'r Arglwydd Ganghellor, o dan Adran 43 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

**"Mae nifer y ceisiadau cyfraith gyhoeddus wedi lleihau, ac… mae hyd achosion yn lleihau. Y canlyniad yw bod nifer yr achosion cyfraith gyhoeddus agored bellach yn ôl i lefel a welwyd ddiwethaf cyn y pandemig."**

Syr Andrew McFarlane
Llywydd yr Adran Deulu



## Milwrol

Mae System Cyfiawnder y Lluoedd yn bodoli i gynnal disgyblaeth yn y Lluoedd Arfog ac, felly, i helpu i gefnogi eu heffeithiolrwydd gweithredol. Mae Llysoedd y Lluoedd yn cynnwys y Llys Milwrol, y Llys Apêl Diannod (ar gyfer gwrando ar apeliadau o benderfyniadau diannod a wnaed gan y Prif Swyddogion), a Llys Sifil y Lluoedd (gwrando achosion dramor sy'n ymwneud â sifiliaid sy'n destun disgyblaeth y Lluoedd). Mae dwy Ganolfan Llys Milwrol parhaol (Catterick yng Ngogledd Swydd Efrog a Bulford yn Wiltshire) sydd dan ofal Gwasanaeth y Llys Milwrol (MCS). Gall y llysoedd eistedd dramor yn ôl yr angen.

Y Barnwr Adfocad Cyffredinol yw Pennaeth Barnwrol Llysoedd y Lluoedd, gyda thîm o Farnwyr Adfocad Cyffredinol Cynorthwyol. Sifiliaid yw'r holl farnwyr, wedi'u penodi gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol annibynnol.

Rheolir gweinyddiaeth y llysoedd gan Wasanaeth y Llys Milwrol, sy'n rhan o'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Crwneriaid

Mae crwneriaid yn ymchwilio i rai marwolaethau a ystyrir i fod yn annaturiol, yn dreisgar, neu lle nad yw'r achos yn hysbys.

Mae crwneriaid yn ddeiliaid swydd barnwrol annibynnol. Maent yn fath o farnwr arbenigol sy'n ymchwilio ac yn esbonio rhai mathau o farwolaethau. Yn wahanol i weddill y farnwriaeth, maent yn cael eu penodi gan awdurdodau lleol. Mae yna 74 o ardaloedd crwner yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd ac mae pob awdurdodaeth yn cael ei hariannu'n lleol.

Mae'r Prif Grwner yn cyhoeddi ei hadroddiad blynyddol ei hun i'r Arglwydd Ganghellor, o dan Adran 36 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.


BAR LIBRARY




# Gwaith barnwyr ac ynadon



# Sifil

## Adran Sifil y Llys Apêl

Mae llwyth gwaith y Llys Apêl (Adran Sifil) wedi parhau i gynyddu. Gellir mesur hyn yn ystadegol o ran nifer y ceisiadau am ganiatâd i apelio a gafwyd, nifer yr apeliadau a wrandawyd, a nifer yr apeliadau sy'n aros i'w gwrando.

Mae'r amser y mae'n ei gymryd i wneud penderfyniadau yn y Llys Apêl (Adran Sifil) wedi sefydlogi. Mae'r amser cyfartalog a gymerir ar gyfer cychwyn achos, caniatáu caniatâd i apelio, gwrando'r apêl ei hun a thraddodi'r dyfarniad wedi gostwng.

Mae'r strwythur gweinyddol newydd a gyflwynwyd i'r Llys y llynedd (gweler tudalennau 8–9 o adroddiad y llynedd) wedi gwreiddio'n gadarn, gyda'r Llys a'r staff yn elwa ar yr ailstrwythuro.

Mae'r Llys Apêl (Adran Sifil) wedi parhau i gynyddu ei dryloywder a'i hygyrchedd, gyda'r mwyafrif o wrandawiadau'n cael eu ffrydio'n fyw. Ar hyn o bryd mae'r Llys yn cynnal cynllun peilot i ganiatáu mynediad at ddadleuon fframwaith partïon mewn nifer o achosion dethol a gaiff eu ffrydio'n fyw.

Mae'r Llys wedi parhau i eistedd y tu allan i Lundain, gan gynnwys yng Nghymru ar ddau achlysur yn ystod y cyfnod adrodd.

## Yr Uchel Lys

Mae'r Uchel Lys yn cynnwys tair adran: Adran Mainc y Brenin (KBD), Yr Adran Deulu, a'r Adran Siawnsri. Mae yna nifer o lysoedd arbenigol yn y KBD, gan gynnwys y Llys Gweinyddol, Y Llys Masnach, a'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith.

### Adran Mainc y Brenin

Bu cynnydd cyffredinol mewn ceisiadau yn ymwneud â materion diogelwch cenedlaethol, ceisiadau am waharddebau yn erbyn unigolion anhysbys, ymgyfreitha grŵp a hawliadau proffil uchel, sydd wedi gosod gofynion ychwanegol ar y farnwriaeth. Yn yr un modd, mae hawliadau yn ymwneud â chyflyrau cysylltiedig ag asbestos a damweiniau traffig y ffordd wedi arwain at gynnydd nodedig yn y llwyth gwaith. Yn y flwyddyn ddiwethaf, bu cynnydd sylweddol hefyd mewn gwaith gorfodi a ffeiliwyd yn yr Uchel Lys, gyda Gwritiau Meddiant a Gohirio Gweithrediadau yn enghreifftiau nodedig o'r cynnydd hwn.

Mae gweithgor sy'n cynnwys staff GLITEF, defnyddwyr llys a'r farnwriaeth wedi diweddaru canllawiau ynghylch gweithrediad adran y Broses Dramor ac adolygwyd y prosesau, gan arwain at well amseroedd trosi ar gyfer cyflwyno dogfennau gartref a thramor. Lansiwyd ffurflen Gweithred Newid Enw digidol newydd ar 18 Awst ac, yn ystod yr wythnos gyntaf, cafodd y llys tua'r un nifer o geisiadau ag y byddai fel rheol yn ei gael mewn mis. Yn ogystal, darparwyd canllaw ar-lein gwell ar GOV.UK ar gyfer defnyddwyr, gan arwain at lai o geisiadau Gweithred Newid Enw yn cael eu dychwelyd oherwydd gwallau.

Mae'r Rhestr Cyfryngau a Chyfathrebu wedi parhau i ddelio ag effaith drawsnewidiol cyfryngau cymdeithasol wrth greu modd a chyfleoedd ar gyfer enllib ac aflonyddwch, yn ogystal â'r pwysau ar breifatrwydd a rhyddid mynegiant yng nghyd-destun cyfathrebu modern.

#### Y Llys Gweinyddol

Ceisiadau adolygiad barnwrol yw prif waith y Llys Gweinyddol, ochr yn ochr ag apeliadau rheoleiddio proffesiynol ac alltudio, ac apeliadau a cheisiadau mewn materion troseddol a diogelwch cenedlaethol. Mae'r Llys wedi delio â sawl achos proffil uchel a chymhleth, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol, terfysgaeth, trethi a diogelwch cymdeithasol. Daeth y system rheoli achosion digidol, CE-File, ar gael yn y Llys Gweinyddol ar gyfer ffeilio'n electronig, er nad yw ei defnydd yn orfodol.

Mae'r Llys Cynllunio, sy'n rhan o'r Llys Gweinyddol, wedi cael blwyddyn brysur arall yn delio â hawliadau cynllunio ac amgylcheddol, gan gynnwys prosiectau ynni a thrafnidiaeth. Aseswyd effaith posibl prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol ar y Llys Cynllunio yn sgil ymrwymiad y Llywodraeth i ganiatáu 150 o geisiadau cynllunio yn ei thymor presennol. Ystyrir yn llawn oblygiadau newidiadau yn y broses Adolygiad Barnwrol i atal oedi mewn achosion o'r fath a'r effaith a ragwelir ar geisiadau.

Mae Rhestr Sifil Adran Mainc y Brenin a'r Llys Gweinyddol ill dau yn gweld cynnydd nodedig yn nifer y ceisiadau gan Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LiPs), sy'n gofyn fel arfer am fwy o gymorth gweinyddol. Yn 2024–25,

cynyddodd y ceisiadau a gofrestrwyd gan LiPs yn y Llys Gweinyddol 14.5% o'i gymharu â 2023–24, o 1,322 o geisiadau i 1,514 o geisiadau.

### Y Llys Masnach

Mae'r Llys Masnach wedi parhau i fod ar flaen y gad o safbwynt datrys anghydfodau busnes rhyngwladol, gyda 75% o'i achosion yn cynnwys elfen ryngwladol. Disgrifiodd adroddiad 2025 Portland ar y Llysoedd Masnach y flwyddyn ddiwethaf fel "record breaking year for diversity of nationalities represented". Mae hyn yn adlewyrchu ymddiriedaeth barhaus partïon rhyngwladol yn system llysoedd Cymru a Lloegr a'u parodrwydd i ddewis cyfraith ac awdurdodaeth Lloegr ar gyfer eu contractau.

Mae lefel yr hawliadau newydd a ddechreuwyd yn y Llys Masnach a'r Llys Morlys wedi aros yn debyg i'r duedd gyffredinol yn y blynyddoedd blaenorol, ond mae maint a chymhlethdod yr achosion wedi cynyddu. Gwelwyd hyn ar ffurf nifer uchel o ddyfarniadau ar yr hanfodion, ceisiadau papur, ceisiadau brys a cheisiadau i symud hawliadau ymlaen. Bu mwy o dreialon hir nag yn y rhan fwyaf o flynyddoedd blaenorol, gan gynnwys dau dreial blwyddyn o hyd a nifer o dreialon hirdymor.

Bu cynnydd hefyd yn nifer yr hawliadau a cheisiadau yn ymwneud â chyflafareddu (yn enwedig cyflafareddu rhyngwladol), sy'n cynrychioli tua 25% o waith y Llys, lle mae'r Llys yn chwarae rôl allweddol wrth gefnogi ac, lle bo angen, goruchwylio achosion cyflafareddu sy'n eistedd yng Nghymru a Lloegr, sy'n faes mawr a ffyniannus o fewn y sector cyfreithiol ei hun.

### Y Llys Technoleg ac Adeiladwaith

Mae'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith (TCC) wedi parhau i weld mwy o'i waith yn cael ei wneud y tu allan i Lundain. Bydd Deddf Caffael 2023 yn gofyn am ystyried gwneud newidiadau i weithdrefnau'r TCC ar gyfer delio ag hawliadau caffael; mae Gweithgor Caffael y TCC eisoes wedi cychwyn ar yr adolygiad hwn, sy'n parhau.

Mae anghydfodau rhyngwladol wedi parhau i ffurfio cyfran sylweddol o waith y TCC yn Llundain, ac mae pwysigrwydd Deallusrwydd Artiffisial wedi'i adlewyrchu yn y digwyddiadau a drefnwyd ar gyfer barnwyr ac ymarferwyr gan Weithgor DA y TCC. Cyhoeddir Canllaw TCC newydd yn ystod hydref 2025.

## Siawnsri

Mae llwyth gwaith y Llysoedd Busnes ac Eiddo (B&PCs) yng Nghymru a Lloegr wedi aros yn sefydlog o'i gymharu â'r blynyddoedd diwethaf. Mae'r llwyth gwaith hwn yn dangos bod y Llys yn parhau i fod yn ganolfan ragoriaeth fyd-eang ar gyfer datrys anghydfodau busnes, gan wrando rhai o'r hawliadau sifil arbenigol domestig a rhyngwladol mwyaf cymhleth a phroffil uchel yn y byd.

Mae ceisiadau i'r Llys Ansolfedd a Chwmnïau wedi parhau i dyfu blwyddyn ar ôl blwyddyn, gan adlewyrchu'r farchnad refeniw.

Un o amcanion allweddol y CHC drwy gydol ei amser yn y rôl oedd hyrwyddo a cheisio uno'r farnwriaeth o fewn y Llysoedd Busnes ac Eiddo, yn enwedig o fewn Adeilad y Rholiau. Y ffordd orau o gyflawni hyn fu drwy draws-ddirprwyo, gan alluogi barnwyr i eistedd ar draws

adrannau gwahanol, gan alluogi'r defnydd gorau o adnoddau barnwrol. Mae hyn wedi caniatáu i farnwyr y Llys Masnach eistedd yn yr Adran Siawnsri, ac yn fwy diweddar i ddau farnwr Siawnsri gael eu hawdurdodi i eistedd yn y Llys Masnach.

Mi wnaeth y CHC gynnal cyfres o seminarau drwy gydol y flwyddyn gyfreithiol. Menter ar y cyd oedd y rhain rhwng barnwyr, ymarferwyr a chymdeithasau proffesiynol, yn trafod meysydd datblygol o'r gyfraith, megis tystiolaeth arbenigwyr, cyllido ymgyfreithwyr, deallusrwydd artiffisial a datgelu. Roedd hyn yn ychwanegol at gynhadledd flynyddol B&PC y CHC a gynhelir bob Chwefror. Yn fwy diweddar cynhaliodd y CHC ddigwyddiad i nodi Wythnos Anghydfodau Rhyngwladol Llundain, a digwyddiad i nodi 50 mlynedd ers Gwaharddeb Mareva. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i farnwyr ledled Cymru a Lloegr ddod at ei gilydd i gymryd rhan, boed hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Lansiodd y CHC ymgynghoriad ar y Datganiad Ymarfer ar gyfer Cynlluniau Trefniant a Chynlluniau Ailstrwythuro o dan Ran 26 a 26A Deddf Cwmnïau 2006 yn ystod gwanwyn 2025. Y prif nod oedd ystyried bron i bum mlynedd o brofiad o ddefnyddio cynlluniau ailstrwythuro, gyda'r bwriad o wella effeithlonrwydd a thegwch y broses o dan Ran 26A. Cyhoeddwyd y Datganiad Ymarfer presennol pan gyflwynwyd Rhan 26A yn ystod pandemig COVID. Mae'r ymatebion bellach wedi'u hystyried, a chafodd datganiad ymarfer diwygiedig ei gyhoeddi ar 18 Medi 2025.

**Un o rannau mwyaf gwerth chweil o fy ngwaith fel Canghellor yr Uchel Lys yw fy rôl fugeiliol o sicrhau bod morâl barnwrol cystal â phosibl. Mae hwn yn faes rydw i wedi'i fwynhau'n arbennig."**

Syr Julian Flaux
Canghellor yr Uchel Lys

## Y Llys Sirol

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer cyfiawnder sifil wedi parhau i ganolbwyntio ar ddigideiddio, gwella perfformiad y llysoedd sirol, a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r system cyfiawnder sifil.

Mae hawliadau sifil yn y llysoedd sirol wedi parhau i gynyddu, ac ar hyn o bryd maent ar eu huchaf ers Ch3 2019. O gymharu â'r un cyfnod yn 2024, roedd hawliadau Llys Sirol rhwng Ionawr a Mawrth 2025 i fyny 18% i 490,000. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 18% yn erbyn yr un cyfnod yn 2024. Hawliadau am arian sy'n bennaf gyfrifol am hyn, a gynyddodd 19% i 409,000 o hawliadau o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024, yn ogystal ag hawliadau am iawndal eraill, a gynyddodd 81% i gyrraedd eu lefel uchaf ers Ch2 2011.

Mae nifer yr hawliadau a amddiffynnwyd a hawliadau a aeth i dreial hefyd wedi cynyddu dros yr un cyfnod, gan godi 8% a 16% yn y drefn honno o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024.

Gostyngodd yr amser cyfartalog rhwng dechrau hawliad a chynnal treial ar gyfer hawliadau bychan a hawliadau trac cyflym/canolradd/aml-drac yn y chwarter Ionawr i Mawrth 2025, 1.5 wythnos a 7.2 wythnos yn gyflymach yn y drefn honno o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024. Mae hyn yn parhau i adlewyrchu gostyngiad graddol mewn amseroldeb ar draws yr holl draciau ers dechrau 2024.

## Darparu Cyfiawnder Sifil

### Diwygio Sifil

Mae achosion yn y Trac Canolradd a'r Aml-drac, lle mae gan y partïon gynrychiolaeth, bellach yn symud yn ddigidol drwy'r pyrth Hawliadau Arian Sifil (OCMC) a Hawliadau am Iawndal Ar-lein. Hefyd, mae gwasanaeth OCMC wedi ehangu i gefnogi ymgyfreithwyr drostynt eu hunain sy'n ymlid Hawliadau Bychan ac achosion Trac Cyflym mewn 16 canolfan wrandawiadau mabwysiadu cynnar, a bydd hyn yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol dechrau hydref 2025.

Er i'r Rhaglen Ddiwygio ddod i ben yn swyddogol ym mis Mawrth 2025, mae'r gwaith wedi parhau yn y llysoedd sirol i gyflawni'r hyn sy'n weddill. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn hydref 2025 a'r canlyniad fydd 23% o hawliadau sifil yn cael eu cychwyn ar-lein.

Bu rhai llwyddiannau nodedig gan gynnwys:

1. **Gwell amseroldeb**: Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF) yn adrodd am ostyngiadau sylweddol yn yr amser a gymerir o'r adeg y cychwynnir hawliad hyd at gerrig milltir allweddol – hyd at 23 wythnos yn gynt i orchymyn cyfarwyddiadau mewn Hawliadau am Iawndal a hyd at 60 wythnos yn gynt ar gyfer achosion Trac Cyflym ar y system Ddiwygio.



2. **Mwy o ymgysylltiad â defnyddwyr:** Mae'r systemau diwygiedig yn dangos cyfraddau ymateb uwch gan ddiffynyddion (43% o gymharu ag 11%), mwy o achosion a amddiffynnir (35% o gymharu ag 16%), a llai o ddyfarniadau trwy ddiffyg (31% o gymharu â 74%), sy'n dangos gwell cyfranogiad gan ddefnyddwyr.
3. **Cynnydd mewn setliadau cynnar:** Mae achosion sy'n setlo cyn y gwneir dyfarniad neu orchymyn cyfarwyddiadau wedi dyblu o dan y system Ddiwygio (19% o gymharu â 9%).

### Y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain

Cyflwynodd y prosiect Cyfeiriad Awtomatig ar gyfer Cyfryngu - Sifil (CARM) proses o gyfeirio gorfodol ar gyfer hawliadau a amddiffynnir sydd werth llai na £10,000 i'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain (SCMS). Bydd y SCMS yn gweithredu dan Gyfarwyddyd Ymarfer peilot tan Mawrth

2026, a chyn hynny bydd gwerthusiad llawn yn cael ei gwblhau.

Hyd yma, mae'r ffigurau gan y SCMS yn galonogol; rhwng Ebrill 2024 ac Ionawr 2025 cyfeiriwyd 29,551 o hawliadau at gyfryngu, ac fe setlodd 40% ohonynt.

### Cyngor Cyfiawnder Sifil

Mae'r Cyngor Cyfiawnder Sifil (CJC) wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau dylanwadol, gan gynnwys ar y Weithdrefn ar gyfer Penderfynu ar Gapasiti Meddyliol mewn Achosion Sifil, adroddiad terfynol ar Brotocolau Cyn-Gweithredu, adroddiad ar Orfodaeth Sifil, ac adroddiadau interim a therfynol ar Gyllido Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain.

Mi wnaeth y nifer mwyaf erioed o unigolion fynychu Fforwm Cenedlaethol 2024. Ymhlith y siaradwyr yr oedd Heidi Alexander AS, y Gyfarwyddwraig Rachel Rossi (Cyfarwyddwr y Swyddfa Mynediad at Gyfiawnder, Adran Gyfiawnder yr UD), a'r MR.

Yn ddiweddar mae'r CJC wedi ymgymryd â phrosiectau hanfodol newydd yn ymdrin â (a) defnyddio DA i baratoi dogfennau llys; (b) gwaith sifil yn y Llys Ynadon; a (c) argaeledd dyfarniadau'r Uchel Lys a'r Llys Apêl (Adran Sifil).

### Y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein

Sefydlwyd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein (OPRC) o dan Ddeddf Adolygiad Barnwrol a'r Llysoedd 2022 i wneud rheolau sy'n llywodraethu'r arferion a'r weithdrefn ar gyfer mathau penodol o achosion llys a thribiwnlys ar-lein ar draws yr awdurdodaethau Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd. Ar 1 Mai 2025, rhoddodd Offeryn Statudol y pŵer i'r OPRC wneud rheolau mewn perthynas ag achosion eiddo a rhwymedi ariannol teuluol.

Mae'r broses o ddrafftio'r rheolau ar gyfer y system feddiannu ddigidol newydd wedi dechrau a byddant y cyntaf o'u math yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r OPRC hefyd wedi lansio ei Ddogfen Ymgysylltu Gyhoeddus gyntaf ar ei fframwaith ar gyfer cynhwysiant digidol a chreu model cyn-gweithredu.

# Troseddol

## Adran Droseddol y Llys Apêl

Mae ceisiadau i Adran Droseddol y Llys Apêl (CACD) wedi dechrau lefelu. Yn y blynyddoedd cyn y pandemig, gwelwyd tuedd ostyngol mewn ceisiadau, o ran euogfarnu a dedfrydu. Ar ôl y pandemig dechreuodd ceisiadau gynyddu'n raddol hyd at Mehefin 2024, pan gyrhaeddasant eu huchafbwynt ar lefel uwch na 2023, ond yn is na'r hyn a welwyd cyn y pandemig.

Mae cyfran y ceisiadau a gyflwynir gan Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LiPs) wedi aros yn gyson ac yn cyfateb i tua 40% o'r ceisiadau euogfarn a dderbynnir, sy'n ganlyniad i'r camau a gymerwyd i wella mynediad at gyfiawnder. Mae cyfreithwyr y Swyddfa Apeliadau Troseddol yn neilltuo cryn dipyn o amser i gynorthwyo LiPs ac i sicrhau bod eu ceisiadau wedi'u paratoi'n briodol ar gyfer eu hystyried gan farnwr unigol a llys llawn. Mae'r ffurflen hawdd ei deall wedi helpu LiPs i gyflwyno'r pwyntiau y maent yn ceisio eu codi ond gall ceisiadau o'r fath gymryd amser i'w deall yn llawn.

Fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau gan yr Atwrnai Cyffredinol o dan y cynllun Dedfrydu Rhy Drugarog wedi cynyddu'n sylweddol eleni. Cafodd 172 o geisiadau eu gwrando gan lys llawn yn 2024–25, o gymharu â 109 yn 2023–24. Mae'r llys hefyd wedi parhau i dderbyn nifer cyson o geisiadau yng nghwrs achos, megis apeliadau erlyn yn erbyn dyfarniad a wnaed yn ystod treial; mae ceisiadau o'r fath yn gofyn yn aml am gael eu rhestru ar frys.

Er gwaethaf gostyngiad bach yn nifer y ceisiadau adnewyddu – sef ceisiadau am ganiatâd i apelio yn erbyn euogfarn a/neu dedfryd a wrthodwyd gan farnwr unigol ac a drosglwyddwyd wedyn i lys llawn – mae swmp y gwaith sy'n weddill wedi parhau i gynyddu. Mae'r cynnydd hwn yn deillio i raddau helaeth o gynnydd yn nifer y ceisiadau sy'n aros i gael eu dyrannu i farnwr unigol, sy'n adlewyrchu cymhlethdod a hyd y rhesymau apêl a gyflwynir gan gynrychiolwyr cyfreithiol yn ogystal â chyfran y ceisiadau a gyflwynir gan LiPs. O ganlyniad, mae'n cymryd mwy o amser barnwrol i ystyried ceisiadau, ac mae'r amser sydd ar gael i farnwyr ystyried ceisiadau ar bapur yn brin.

Trwy ganolbwyntio ar baratoi a rhestru achosion yn effeithlon o flaen llys llawn, yn enwedig lle rhoddwyd caniatâd i apelio, nid yw'r amser aros cyfartalog o dderbyn cais hyd at y penderfyniad terfynol wedi codi mor ddramatig ag y gallai fod wedi gwneud. Serch hynny, mae unrhyw oedi wrth benderfynu apêl yn derfynol yn peri pryder, a'r flaenoriaeth bob amser fydd gwrando apeliadau dros geisiadau adnewyddu am ganiatâd i apelio.

Eleni, cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Grŵp Defnyddwyr Llys, y cyntaf ym mis Mawrth 2025 a'r ail yn gynnar ym mis Gorffennaf 2025, a chafodd cylchlythyrau eu hanfon ar gyfer y ddau. Pynciau a godwyd yn y cyfarfod yn y gwanwyn oedd yr angen i gydymffurfio â Rheolau Trefniadaeth Droseddol, materion ynghylch cyllido a phrosiect parhaus Comisiwn y Gyfraith ar Apeliadau Troseddol. Ym mis Gorffennaf 2025, tynnwyd sylw defnyddwyr at y platfform newydd ar gyfer cyhoeddi rhestrau gwrandawiadau ar gyfer y Llysoedd Barn Brenhinol, sef CaTH (Gwasanaeth Gwrandawiadau yn y Llysoedd a'r Tribiwnlysoedd), a'r angen i gofrestru er mwyn gallu cael mynediad at y wybodaeth hon. I hyrwyddo tryloywder a chyfiawnder agored, mae'r Swyddfa Apeliadau Troseddol, gyda chymeradwyaeth yr Is-lywydd, yn sicrhau bod Canllaw Byr i achosion yn y CACD ar gael ar-lein [cafodd y fersiwn sydd ar gael ar hyn o bryd ei gyhoeddi ym Mai 2024]. I gynorthwyo gweithwyr proffesiynol nad ydynt wedi cymhwyso yn y gyfraith sy'n mynychu gwrandawiadau CACD, boed yn ddioddefwyr, yn deuluoedd apelyddion neu'n dwristiaid, bydd dolen i'r Canllaw Byr ar judiciary.uk ar gael drwy glicio ar god QR a ddangosir ym mhob ystafell llys berthnasol.

Mae'r CACD wedi parhau i eistedd yn rheolaidd yng Nghymru unwaith o leiaf, ac fel arfer ddwywaith, ym mhob tymor. Eleni, eisteddodd y llys yn Llys y Goron Abertawe a Llys y Goron Caerdydd; mae trefnu'r eisteddiadau hyn wedi gofyn am gysylltu'n rheolaidd â Swyddfa Gefnogi Cymru GLlTEF. Eleni, llywyddodd yr Is-lywydd gyfansoddiad o Lys Apêl y Llys Milwrol (CMAC), gan

eistedd yng Nghanolfan Llys y Fyddin, Bulford. Dyma'r tro cyntaf i'r CMAC eistedd ar gylchdaith. Cyn yr eisteddiad, croesawodd y Fyddin yr Is-lywydd a'r Cofrestrydd ym Mhencadlys y Fyddin yn Andover, lle bu iddynt gyfarfod ag aelodau Gwasanaeth Cyfreithiol y Fyddin a chael cyflwyniad gwybodus iawn gan y Prif Uwchfrigadydd Allen am ei waith.

## Llys y Goron

Mi wynebodd Llys y Goron gyfnod arbennig o heriol yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Parhaodd y llwyth achosion sy'n weddill i dyfu, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed o 78,329 erbyn 30 Mehefin 2025.

Er i nifer yr achosion sy'n cael eu gwrando hyd at y diwedd aros yn sefydlog, mi wnaeth cynnydd mewn ceisiadau gynyddu pwysau ar draws y system gan arwain at oedi hirach i ddioddefwyr, tystion a diffynyddion. Effeithiodd yr oedi ar bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol drwy gydol y flwyddyn adrodd.

Cafodd y llwyth gwaith uchel yn Llys y Goron ei ddwysáu gan argyfwng capasiti'r carchardai. Mi wnaeth yr ystad garchardai i oedolion gwrywaidd weithredu uwchlaw'r trothwy poblogaeth o 95% am lawer o'r flwyddyn adrodd, gan gyrraedd 87,336 erbyn 29 Medi 2025. Cyflwynwyd mesurau brys gan y Llywodraeth, gan gynnwys y cynllun Dedfryd Safonol Benodol 40 a chynyddu'r Cyrffyw Cadw yn y Cartref, i leddfu'r pwysau ar gapasiti'r carchardai, sy'n adlewyrchu system dan straen ddifrifol. Mae poblogaeth garchar uchel, yn enwedig poblogaeth ar remand heb euogfarn, wedi cael effaith sylweddol ar weithrediad Llys y Goron; er enghraifft, mae danfon carcharorion yn hwyr i'r llys wedi arwain at dreialon yn dechrau'n hwyrach yn y dydd ac yn para'n hirach yn gyffredinol.

Mi wnaeth yr ansicrwydd ynghylch dyraniadau diwrnodau eistedd effeithio'n fwyfwy ar hyn. Creodd y dyraniad cychwynnol o 106,000 o ddiwrnodau (allan o gyfanswm capasiti posibl o 113,000 o ddiwrnodau) ar gyfer 2024/25 brinder ar unwaith. Er i 2,500 o ddiwrnodau ychwanegol gael eu dyrannu gan yr Arglwydd Ganghellor ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2024, golygai'r amseru fod Barnwyr Preswyl eisoes, yng ngoleuni'r dyraniad gwreiddiol, wedi gwneud penderfyniadau rhestru anodd i ganslo eisteddiadau Cofiaduron a dad-restru treialon (gan gynnwys achosion RASSO (Trais Rhywiol a Throseddau Rhywiol Difrifol) a throseddau treisgar). Golygodd hyn oedi pellach i ddioddefwyr, tystion, diffynyddion ac eiriolwyr yr oedd eu hachosion yn barod i'w gwrando cyn Ebrill 2025.

Mae'r Grŵp Gwella Llys y Goron wedi parhau i adeiladu ar ei sylfaen gref o gydweithio ar draws awdurdodaethau a gwella effeithlonrwydd ar draws y Llysoedd Troseddol. I adlewyrchu ei gylch gwaith estynedig i gynnwys yr ynadaeth yn ffurfiol, cafodd y grŵp ei ail-enwi yn Grŵp Gwella'r Llysoedd Troseddol (CCIG) a'i ailstrwythuro gyda model llywodraethu newydd a haen ehangach o aelodaeth o asiantaethau ar draws y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r CCIG bellach yn gweithredu drwy ddau gorff parhaol sy'n cyfarfod yn rheolaidd:

- Y Grŵp Gweithredol

- Y Grŵp Llawn

Yng nghyfarfod cyntaf Y Bwrdd Gweithredol ym Mawrth 2025, cymeradwywyd pedwar prosiect allweddol. Mae pob un yn cael ei arwain gan Weithgor dan gadeiryddiaeth uwch farnwr:

- Safoni Rhestru Llys y Goron – dan gadeiryddiaeth Arglwydd Ustus Edis
- Mynychu o Bell – dan gadeiryddiaeth Mrs Ustus Yip, Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol
- Adroddiadau Cyn Dedfrydu – dan gadeiryddiaeth Ei Anrhydedd y Barnwr Menary CB, Cofrestrydd Anrhydeddus Lerpwl
- Deallusrwydd Artiffisial – dan gadeiryddiaeth Mr Ustus Johnson

Ym Mehefin 2025, cymeradwywyd dau brosiect arall:

- Rheoli Achosion yn Well – dan gadeiryddiaeth Mrs Ustus Cutts
- Rhestru Achosion Cam-drin Domestig – dan gadeiryddiaeth Mrs Ustus Knowles

Mae pob Gweithgor wedi cynnal ei gyfarfod cyntaf ac yn canolbwyntio yn awr ar gyflawni canlyniadau ymarferol i gefnogi effeithlonrwydd gweithredol y llysoedd.

Mae'r gweithgor rhestru yn ystyried argymhellion i wella arferion rhestru a gynhyrchwyd gan Ei Anrhydedd y Barnwr Edmunds CB yn ystod gwanwyn 2025, gyda'r bwriad o gynhyrchu fframwaith polisi rhestru cenedlaethol yn ystod 2026.




## Llys Ynadon

### Llwyth achosion

Mae llwyth achosion y Llys Ynadon wedi parhau i fod yn uchel; rhwng Hydref 2024 a Rhagfyr 2024 cafwyd 377,873 o achosion; rhwng Ionawr 2025 a Mawrth 2025, cafwyd 387,240 o achosion; a rhwng Ebrill 2025 a Mehefin 2025 cafwyd 374,916 o achosion.

Ym mis Tachwedd 2024, cynyddodd y Llywodraeth bwerau dedfrydu ynadon o uchafswm o chwe mis o garchar i 12 mis o garchar am un drosedd y gellir ei phrofi neillffordd, sy'n golygu bod mwy o achosion yn gallu cael eu gwrando yn y Llys Ynadon ac sydd, yn ei dro, yn lleihau'r galw ar Lys y Goron.

## Recriwtio

Roedd 14,636 o ynadon mewn swydd ar 1 Ebrill 2025, gan gynnwys 894 o ynadon newydd a gafodd eu recriwtio yn 2024/25. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud gwelliannau i'r prosesau recriwtio, cynefino a hyfforddi ar gyfer 2025/26 a thu hwnt, o ystyried y galw presennol a chynyddol fydd ar y fainc yn y blynyddoedd i ddod.

Bu gwaith parhaus i wella amrywiaeth ar draws yr ynadaeth, gyda 58% o'r penodiadau yn 2024/25 yn fenywod, 23% o gefndir lleiafrifoedd ethnig, a 41% o dan 50 oed. Mae rhyw ac oedran yn parhau i fod yn gyson â phenodiadau 2023/24, tra bo cyfran yr ymgeiswyr o gefndir lleiafrifoedd ethnig wedi cynyddu o 16%.

## Ymgynghoriad ar Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

Ym mis Tachwedd 2024, cadarnhaodd y Llywodraeth ei bwriad i ddeddfu i ddiddymu Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAs). Mae LJAs yn creu ffiniau daearyddol mewn perthynas â phedwar prif gydran o weinyddiaeth y Llysoedd Ynadon: cychwyn a rhestru achosion; talu a gorfodi dirwyon, gorchmynion dedfryd ohiriedig, gorchmynion cymunedol a gorchmynion adsefydlu ieuenctid; recriwtio ynadon; a lleoli ynadon. Maent hefyd yn gysylltiedig â threfniadau arweinyddiaeth a hyfforddiant ynadon.

Ym Mawrth 2025, lansiodd Barnwriaeth Cymru a Lloegr a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd i geisio barn ar y newidiadau arfaethedig. Rhennir cyfrifoldeb am y meysydd a gwmpesir gan yr ymgynghoriad rhwng y LCJ a'r Arglwydd Ganghellor. Cafwyd dros 1,400 o ymatebion a chyhoeddir ymateb i'r ymgynghoriad yn hwyrach eleni.

## Adolygiad o'r drefn lywodraethol i ynadon

Ym Mai 2024, cyhoeddodd yr Uwch Farnwr Llywyddol (SPJ) ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i strwythurau llywodraethu'r fainc, sydd ar wahân i fater y LJAs. Y bwriad yw sefydlu strwythur gwneud penderfyniadau clir ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau bod y fainc yn cael ei chefnogi a'i chynrychioli ym mhob fforwm.

## Y Weithdrefn Un Ynad

Yn Chwefror 2025, dechreuodd y farnwriaeth gynnal archwiliad o'r Weithdrefn Un Ynad (SJP), sef mecanwaith statudol y gall Llysoedd Ynadon ei ddefnyddio i ddelio â throseddau mân, na ellir rhoi dedfryd o garchar ar eu cyfer, heb i ddiffynyddion orfod ymddangos yn bersonol yn y llys; er enghraifft, rhai troseddau moduro neu beidio â thalu am drwydded teledu. Sefydlwyd gweithgor, dan gadeiryddiaeth y SPJ, i ddatblygu set o argymhellion ar sut y gellir ei wella.

Ar wahân, mae'r Llywodraeth wedi bod yn edrych ar ddiwygiadau posibl i'r SJP ac erlyniadau preifat, ac mae'r farnwriaeth wedi bod yn ymgysylltu'n briodol â hyn.

Sentencing Council

## Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr

Corff annibynnol yw'r Cyngor Dedfrydu. Yr Arglwyddes Brif Ustus yw ei Lywydd, er nad yw'n aelod o'r Cyngor, ac mae'n cael ei gadeirio gan uwch farnwr. Mae gan y Cyngor 14 aelod, gan gynnwys cynrychiolaeth anfarnwrol. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn cael ei gynrychioli ym mhob cyfarfod o'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau drwy drafod ac ymgynghori. Mae'n penderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer datblygu canllawiau, yn ymchwilio ac yn cynhyrchu canllawiau drafft, ac yn ymgynghori ag ymgynghorwyr statudol, gweithwyr proffesiynol yn y system cyfiawnder troseddol a'r cyhoedd yn ehangach dros gyfnod o 12 wythnos. Cyhoeddir fersiynau diffiniol o'r canllawiau ar ôl ystyried yn ofalus ymatebion i'r ymgynghoriad, ac yna caiff y canllawiau eu monitro unwaith y byddant mewn grym.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu ei adroddiad blynyddol ei hun, ac fe gyhoeddwyd yr un diweddaraf ar 16 Gorffennaf 2025.

Nodwyd blwyddyn 2024/25 gan farwolaeth trist Cadeirydd y Cyngor, Arglwydd Ustus William Davis, ar 7 Mehefin 2025. Roedd gan Syr William flynyddoedd o brofiad fel aelod o'r Cyngor ac roedd wedi gwasanaethu fel Cadeirydd ers 1 Awst 2022. Cafodd ei olynu dros dro gan y Dirprwy Gadeirydd, Arglwydd Ustus Holroyde ac, yn ddiweddarach, gan Arglwydd Ustus Edis.

Drwy gydol y cyfnod adrodd, mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni ei brif ddyletswydd o ddatblygu canllawiau sy'n hyrwyddo dulliau clir, teg a chyson o ddedfrydu.

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi canllawiau dedfrydu newydd a diwygiedig ar droseddau penodol yn ymwneud â thagu a mygu, blacmel, herwgipio, caethiwed ffug a chymryd cerbyd wedi'i waethygu, yn ogystal â chanllaw cyffredinol ar wahardd gyrwyr. Hefyd yn mis Mawrth, yn dilyn ymgynghori, cyhoeddodd y Cyngor fersiwn wedi'i ddiwygio o'r canllaw cyffredinol, Rhoi dedfrydau o garchar a dedfrydau cymunedol. Daeth y canllaw hwn yn destun dadl Seneddol ac, yn y pen draw, deddfwriaeth frys a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Ganghellor. Er mwyn sicrhau bod pob canllaw dedfrydu yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Mehefin, mi wnaeth y Cyngor ddiwygiadau i ganllawiau presennol ynghyd â'r canllaw Rhoi dedfryd, a ddaeth i rym ar 1 Medi 2025.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriadau hefyd ar ganllawiau drafft ar droseddau yn ymwneud â hela ysgyfarnogod a phecyn o ganllawiau newydd a diwygiedig ar orchmynion atodol sydd ar gael ar euogfarn. Cynhaliwyd hefyd y pedwerydd ymgynghoriad blynyddol ar ddiwygiadau amrywiol i ganllawiau dedfrydu, gyda'r newidiadau o ganlyniad yn dod i rym ar 1 Mehefin ac 1 Gorffennaf 2025.

Cyhoeddodd y Cyngor ganfyddiadau o adolygiad o'r ymchwil bresennol ar effeithiolrwydd opsiynau dedfrydu a thri gwerthusiad o ganllawiau presennol, sef canllawiau penodol sy'n ymwneud ag eitemau â llafn ac arfau ymosodol a throseddau bygythiol, a gwerthusiad o'r canllaw cyffredinol ar gyfer dedfrydu troseddau a gyflawnwyd yng nghyd-destun cam-drin domestig.



## Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol

Roedd rhaglen waith sylweddol y Pwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys gwneud ystod eang o reolau a diwygiadau i reolau. Roedd y rhain yn cynnwys rheolau diwygiedig ynghylch dirmyg llys, rheolau ynghylch costau mewn achosion mynd i law'r derbynnydd, ceisiadau am wybodaeth o gofnodion banc i'w defnyddio mewn achos troseddol, apêl erlyn yn erbyn dyfarniad Llys y Goron, hysbysiad o gais am gyfyngiadau ar adrodd, cyflwyno hysbysiad o apêl mewn achosion atafaelu, a chymryd tystiolaeth ar lw gan dyst i'w defnyddio yn Llys y Goron.

Yn 2025, mi wnaeth y Pwyllgor atgyfnerthu'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol am y tro cyntaf ers 2020. Dechreuwyd ar waith i ategu darpariaeth statudol newydd a wnaed gan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024, a darpariaeth a fyddai'n cael ei wneud gan y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd a'r Bil Troseddu a Phlismona, os cânt eu pasio. Cyhoeddwyd mynegai newydd i'r Rheolau a chanllawiau ar gyfer diffynyddion heb gynrychiolaeth. Ymunodd aelodau ag adolygiadau traws-awdurdodaethol o'r weithdrefn dirmyg llys ac o ddarpariaeth ar gyfer cyfiawnder agored.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, disgwylir i'r Pwyllgor wneud rheolau i ategu diwygiadau a argymhellir gan Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol Syr Brian Leveson.

## System Cyfiawnder y Lluoedd

### Y Farnwriaeth

Y Barnwr Adfocad Cyffredinol, Ei Anrhydedd y Barnwr Alan Large, yw pennaeth barnwrol Llysoedd y Lluoedd.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, cafodd dau Ddirprwy Barnwr Adfocad Cyffredinol Cynorthwyol (DAJAG) ei recriwtio: DAJAG Sarah Magill a DAJAG Holly Scott-Mason. Barnwyr sy'n derbyn ffi yw'r DAJAGs. Disgwylir i DAJAG Sarah Magill ddechrau gwrando achosion ym Medi 2025 a bydd DAJAG Holly Scott-Mason yn gwneud hynny pan fydd yn dychwelyd o absenoldeb mamolaeth.

Mae'r farnwriaeth llawn-amser yn Llysoedd y Lluoedd yn gyflawn.

### Nifer yr achosion

Gwelwyd cynnydd arall yn y flwyddyn ddiwethaf yn y nifer o bersonél y Lluoedd Arfog a gafodd eu dwyn gerbron y Llys Milwrol. Yn y cyfnod rhwng 1 Awst 2024 a 21 Gorffennaf 2025, cafodd 221 o aelodau'r Lluoedd Arfog eu rhoi ar brawf yn y Llys Milwrol a chwblhawyd eu hachosion. Mae hyn yn cymharu â 207 o unigolion ag achosion a gwblhawyd y flwyddyn flaenorol, sy'n gynnydd o 6.7%. Roedd 26.7% o'r achosion yn ymwneud â throseddau rhyw, o gymharu â 27.5% y flwyddyn flaenorol.

### Amseroedd rhestru

Rhestrir Gwrandawiadau Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial o fewn 42 diwrnod i gyfarwyddyd achos gael ei wneud gan Awdurdod Erlyn y Lluoedd Arfog (SPA). Mae hyn yn Ddangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) ar gyfer y Gwasanaeth Llys Milwrol (MCS), ac fe'i gyflawnwyd ganddynt mewn 100% o achosion yn ail chwarter 2025.

Yr amser aros cyfartalog o gael cyfarwyddyd achos gan y SPA i dreial yn y Llys Milwrol, ar gyfer y flwyddyn adrodd hon, yw ychydig dan 156 o ddiwrnodau, sef tua phum mis, o'i gymharu â 176 o ddiwrnodau, dros chwe mis, y flwyddyn flaenorol. Y ffactor mwyaf cyffredin sy'n golygu bod achosion yn cael eu rhestru y tu hwnt i'r KPI yw argaeledd cyfreithiwr ar gyfer yr amddiffyniad.

Mae amseroedd rhestru byr yn Llysoedd y Lluoedd, yn enwedig ar gyfer achosion â blaenoriaeth uchel fel rhai sy'n cynnwys honiadau o drais rhywiol ac ymosodiad rhyw difrifol, yn ffordd bwysig o gefnogi effeithiolrwydd gweithredol y Lluoedd Arfog drwy ddarparu penderfyniad prydlon er budd dioddefwyr, diffynyddion a'u hunedau.

### Cyhoeddi sylwadau dedfrydu

Mae sylwadau dedfrydu mewn achosion yn y Llys Milwrol, sy'n arwain at ddiswyddo, bellach yn cael eu cyhoeddi ar wefan y MCS. Cyflwynwyd y mesur hwn i hyrwyddo tryloywder a dealltwriaeth gyhoeddus o'r broses ddedfrydu yn y Llys Milwrol. Mabwysiadwyd y polisi hwn hefyd i bwysleisio effaith achosion sy'n arwain at euogfarnau a diswyddiadau, drwy dynnu sylw at ganlyniadau difrifol ymddygiad annerbyniol.

### Achosion sy'n cynnwys deunydd cyfrinachol

Mae'r dechnoleg gwybodaeth (TG) a'r seilwaith gefnogol angenrheidiol wedi'u gosod yn Bulford a Catterick ar gyfer treialon sy'n cynnwys tystiolaeth gyfrinachol. Mae pob un o'r bedair ystafell llys bellach yn gallu gwrando ar dystiolaeth gyfrinachol mewn llys caeedig – gan gydymffurfio'n llwyr â

gofynion diogelwch y Weinyddiaeth Amddiffyn – ac yn gallu dychwelyd i fod yn llys agored gyda mynediad i'r cyhoedd pan gyflwynir tystiolaeth nad yw'n gyfrinachol.

### Aelodau'r Bwrdd

Mae'r cynllun peilot i brofi byrddau tri-Gwasanaeth (sy'n cyfateb i reithgorau) yn y Llys Milwrol a'r Llys Apêl Diannod, a ddechreuodd ym mis Hydref 2023, wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD). Cafodd y cynllun peilot adborth cadarnhaol gan aelodau'r bwrdd a defnyddwyr llys. Bellach, byrddau tri-Gwasanaeth, lle mae pob un o wasanaethau'r Lluoedd Arfog yn cael ei gynrychioli'n gyfartal ar y bwrdd yw'r arferiad ar gyfer pob treial yn y Llys Milwrol a'r Llys Apêl Diannod. Mae gan y barnwyr bwerau o hyd i drefnu bwrdd un Gwasanaeth os yw hynny er budd cyfiawnder; er enghraifft, lle byddai materion technegol sy'n berthnasol i un gwasanaeth yn gallu cael eu hystyried yn well gan aelodau'r gwasanaeth hwnnw'n unig.

Mae newidiadau wedi'u gwneud i reng llywydd y bwrdd yn y Llys Milwrol a'r Llys Apêl Diannod. Mae rheng y llywydd wedi'i gynyddu i lefel OF4, sy'n cyfateb i Gadlywydd (RN), Is-gyrnol a Chadlywydd Adain. Mae'r Barnwr Adfocad Cyffredinol wedi croesawu'r newid hwn gan ei fod yn adlewyrchu lefel briodol o brofiad a gwybodaeth ar gyfer rôl y llywydd.

### Materion gweithredol

Mae'r MCS bellach wedi cwblhau ei wrandawiad adran 28 cyntaf, yn ymwneud â chofnodi ymlaen llaw prif dystiolaeth tystion bregus, gyda rhagor o achosion wedi'u rhestru yn y misoedd i ddod. Mae systemau wrth gefn Wi-Fi Starlink wedi'u gosod yn y ddwy ganolfan llys, sydd wedi gwella gwydnwch gweithrediadau'r llysoedd.

# Teulu

## Cyfraith Gyhoeddus

Mae achosion cyfraith gyhoeddus plant yn cynnwys achosion sy'n cael eu dwyn gan awdurdodau lleol i ddiogelu plant rhag niwed sylweddol a sicrhau eu bod yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Yn y flwyddyn hyd at Mawrth 2025, dechreuwyd 15,851 o achosion o gymharu â 15,757 o achosion a ddechreuwyd yn yr un cyfnod hyd at Mawrth 2024. Roedd hyd achos cyfartalog yn chwarter cyntaf 2025 yn 39.6 wythnos, i lawr o 42.1 wythnos yn yr un chwarter y flwyddyn flaenorol.

Erbyn Ebrill 2025, roedd 10,045 o achosion Cyfraith Gyhoeddus ar agor o gymharu â 10,604 o achosion ar agor ym mis Ebrill 2024.

## Cyfraith Breifat

Mae achosion cyfraith breifat plant yn ymwneud ag anghydfodau rhwng rhieni neu eraill ac yn canolbwyntio ar drefniadau ar gyfer gofal a lles plentyn yn y dyfodol.

Yn y flwyddyn hyd at Mawrth 2025, dechreuwyd 51,284 o achosion, o gymharu â 51,074 a ddechreuwyd yn yr un cyfnod hyd at Mawrth 2024. Roedd hyd achos cyfartalog yn chwarter cyntaf 2025 yn 41.0 wythnos; mae hyn i lawr o 43.2 wythnos yn yr un chwarter y flwyddyn flaenorol. Ym mis Ebrill 2025 roedd 37,254 o achosion cyfraith breifat ar agor. Mae hyn i lawr o 40,997 ym mis Ebrill 2024, sef gostyngiad o naw y cant.

Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd y Cynllun Braenaru yn cael ei ddatblygu ymhellach, sydd wedi trawsnewid y ffordd y mae'r llys yn ymgysylltu â rhieni sydd mewn anghydfod i fodel sy'n canolbwyntio ar ddatrys problemau, yn seiliedig ar gyfrif clir a chynnar o lais y plentyn. Mae'r Cynllun Braenaru yn symud achosion teulu Cyfraith Breifat i amgylchedd newydd sy'n llai gwrthwynebus ac yn fwy ymchwiliol. Mae'n darparu gwell cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig, yn lleihau nifer y gwrandawiadau sydd eu hangen ar gyfer pob achos ac yn cefnogi canlyniadau cyflymach i blant a theuluoedd, gan gynnwys datrysiadau y tu allan i'r llys pan fo hynny'n briodol.

Lansiwyd y Cynllun Braenaru yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru ym mis Mawrth 2025, ac yng Ngorllewin Swydd Efrog ym mis Mehefin 2025. Roedd hyn yn ychwanegiad at Dorset a Gogledd Cymru a lansiwyd ym mis Chwefror 2022, a De-ddwyrain Cymru a Birmingham a lansiwyd ym mis Ebrill a Mai 2024 yn y drefn honno.

Ym mis Chwefror 2025 cyhoeddodd MoJ ddata yn dangos bod llwythi achosion ar agor wedi gostwng dros 50% a bod hyd achos cyfartalog yn gyflymach o 11 wythnos yng Ngogledd Cymru a Dorset o gymharu â'r adeg pan gafodd y Cynllun Braenaru ei lansio.

## Y Llys Rhwymedi Ariannol

Mae'r Llys Rhwymedi Ariannol yn helpu i sicrhau, ar ôl i briodas neu bartneriaeth sifil chwalu, bod sefyllfa ariannol teulu yn cael ei datrys yn deg ac yn effeithlon.

Gwnaed 45,731 o geisiadau am rwymedi ariannol yn y flwyddyn hyd at Mawrth 2025, cynnydd o 3% ar yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y ceisiadau a oedd eisoes wedi'u cytuno ac a ofynnodd yn syml am orchymyn cydsynio yn 34,137. Roedd hyn gyfwerth â 74% o'r holl geisiadau a wnaed, cynnydd o 3% ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2024. O gymharu, gostyngodd yr achosion a wrthwynebwyd bron 9% o 12,717 ym mis Ebrill 2024 i 11,594 ym mis Ebrill 2025.

## Y Llys Gwarchod

Mae'r Llys Gwarchod yn lys arbenigol sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion ariannol neu les pobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud y penderfyniadau hynny eu hunain. Yn y flwyddyn ariannol o Ebrill 2024 i Mawrth 2025, cafodd y Llys Gwarchod 37,127 o geisiadau dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Mae hyn yn gynnydd o dros 2,300 o geisiadau (6%) o'i gymharu â'r flwyddyn hyd at Mawrth 2024, pan gafwyd 34,808 o geisiadau.

## Gorchmynion Amddifadu o Ryddid

Efallai y bydd angen lleoli plant sydd mewn perygl o achosi niwed difrifol i'w hunain neu i eraill mewn amgylchedd sy'n cyfyngu ar eu rhyddid. Ers 2022, mae ceisiadau i amddifadu pobl ifanc o'u rhyddid o dan awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys wedi cael eu cyflwyno i'r Llysoedd Barn Brenhinol, fel rhan o'r Rhestr Genedlaethol Amddifadu o Ryddid. Yn ystod y flwyddyn gyntaf cafwyd 1,389 o geisiadau (Gorffennaf 2022 i Mehefin 2023). Yn ystod y flwyddyn o Ebrill 2024 i Mawrth 2025, cafwyd 1,311 o geisiadau.

# Cymru

Mi wnaeth yr Arglwyddes Brif Ustus ymweld â Hwlffordd yn ystod mis Hydref 2024 ar gyfer cynhadledd flynyddol Cymru'r Gyfraith, cyfarfod Cymdeithas Barnwyr Cymru, a'r gwasanaeth i nodi agoriad y flwyddyn gyfreithiol yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Sir Benfro.

Roedd y gynhadledd yn Hwlffordd yn gyfle i barhau â'r drafodaeth ar ddatblygiadau cyfansoddiadol a chyfreithiol yng Nghymru, gan gynnwys y diwygiad arfaethedig i Dribiwnlysoedd Cymru.

Dychwelodd y LCJ i Gymru ym mis Chwefror 2025 i eistedd yn Adran Droseddol y Llys Apêl. Eisteddodd adrannau'r Llys Apêl (Sifil a Throseddol) yng Nghymru 14 o weithiau yn ystod y cyfnod rhwng Awst 2024 a Medi 2025, gan rannu'r eisteddiadau rhwng Caerdydd ac Abertawe.

Mi wnaeth y LCJ gyfarfod Prif Weinidog Cymru, Y Farwnes Eluned Morgan AS, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni, Julie James AS, yng Nghaerdydd. Trafodwyd amrywiaeth o bynciau'n ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys y pwysau ar y system gyfiawnder, ystad y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, a gwahaniaethau mewn cyfreithiau.

Yn ystod ei hymweliad â Chymru mi wnaeth y LCJ, yng nghwmni'r Barnwyr Cyswllt Seneddol, Arglwydd Ustus Dingemans a Mr Ustus Mould, ymweld â'r Senedd a mynychu derbyniad gyda rhai swyddogion. Mi wnaeth yr ymweliad helpu i ddatblygu perthnasau gyda'r Senedd, gwella gwybodaeth am y farnwriaeth a'i gwaith, a gwella gwybodaeth y farnwriaeth am waith y Senedd. Yn ogystal, mi wnaeth y LCJ gyfarfod Llywydd y Senedd, Elin






Jones AS, ac ymwelodd â llysoedd yng Nghaerdydd a Chasnewydd, gan gwrdd â barnwyr ac ynadon, ymysg eraill.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol y LCJ yn Gymraeg a Saesneg am y tro cyntaf yn 2024. Yn yr un modd, diolch i waith Uned yr Iaith Gymraeg yng Nghaernarfon, cyhoeddwyd Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol (Rhan 1) Syr Brian Leveson yn Gymraeg ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg ym mis Gorffennaf 2025.

Cafodd cynllun peilot Cyfraith Breifat y Cynllun Braenaru (a ddechreuodd yn Abertawe) ei ymestyn i gynnwys Cymru gyfan pan gafodd ei fabwysiadu gan Ganolbarth a Gorllewin Cymru ym mis Mawrth 2025. Roedd y cynllun peilot yng Nghymru yn sylfaen ar gyfer ei fabwysiadu yn Lloegr.

Cyflwynwyd cynllun peilot Gorchymyn Diogelu Rhag Cam-drin Domestig (DAPO) ym mhob llys yng Ngogledd Cymru yn Ebrill 2025. Cafodd y cynllun gweithredu ei ganmol yn eang gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref ac mae'n fodel ar gyfer cynlluniau peilot yn y dyfodol. Bydd y cynllun peilot yn cael ei ymestyn o hydref 2025 ymlaen.

Mae Llys y Goron Abertawe wedi dod yn arloeswr cenedlaethol ar gyfer Bwndeli Rheithgor Digidol, gan ddechrau ei dreialu mewn dwy ystafell llys ym mis Mehefin 2025.

Cyflwynwyd y broses Gweithdrefn Un Ynad – Troseddau Traffig y Ffordd ledled Cymru pan gafodd ei gyflwyno yng Ngwent a De Cymru yn mis Medi 2024. Cafodd y broses ei chyflwyno yng Ngogledd Cymru, Dyfed a Phowys yn gynharach yn 2024.




Traddodwyd y dyfarniad arwyddocaol cyntaf yn ymwneud â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 gan y Llys Adrannol yng Nghaerdydd yn mis Hydref 2024. Cafodd y dyfarniad ei draddodi yn Gymraeg a Saesneg.

Canolfan Gyfiawnder Sifil Abertawe oedd y mabwysiadwr cynnar gwreiddiol ar gyfer system ddigidol Cyfraith Breifat, a'r cyntaf i dreialu'r dull digidol newydd o weithio. Mae staff Canolfan Gyfiawnder Sifil a Theulu Abertawe wedi chwarae rhan allweddol yn y broses o brofi'r system ac adnabod newidiadau a gwelliannau angenrheidiol i sicrhau bod y system yn bodloni'r meini prawf llwyddiant cyn ei hymestyn ymhellach.

Mae'r cynllun peilot Cydlynydd Achosion yn parhau yn Llys y Goron Caerdydd, ac mae wedi'i ymestyn hyd at ddiwedd Mawrth 2026. Mae'r cynllun peilot yn darparu adnodd penodedig ar gyfer symud achosion yn eu blaenau gyda phwerau barnwrol dirprwyedig i estyn terfynau amser ar gyfer cyflwyno.



# Y Farnwriaeth Fodern



Mae'r Arglwyddes Brif Ustus wedi ymrwymo i sicrhau bod gan y farnwriaeth adnoddau priodol, ei bod yn addas ar gyfer gofynion y dyfodol a'i bod yn amrywiol ac yn gynhwysol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir gan y Coleg Barnwrol o'r safon uchaf.

Cefnogir yr Arglwyddes Brif Ustus yn hyn o beth gan ddau aelod o'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol (JEB): Cadeirydd Bwrdd y Coleg Barnwrol, Arglwyddes Ustus King, a'r Barnwr Arweiniol dros Amrywiaeth a Chynhwysiant, Arweinyddiaeth, Datblygu a Lles, Arglwyddes Ustus Whipple. Mae Cyngor y Barnwyr hefyd yn cefnogi'r Arglwyddes Brif Ustus i gyflawni ei dyletswyddau statudol, gan gynnwys drwy benodi tri aelod o'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol a chadeirio gweithgorau a phwyllgorau. Pwyllgorau presennol Cyngor y Barnwyr, a'u Cadeiryddion, yw:

- Pwyllgor Cyswllt Dull Amgen o Ddatrys Anghydfod (dan gadeiryddiaeth Arglwyddes Ustus Asplin)
- Pwyllgor Cyfathrebu (dan gadeiryddiaeth Mr Ustus Constable)
- Pwyllgor Amrywiaeth (dan gadeiryddiaeth Arglwyddes Ustus Whipple)
- Pwyllgor AD Barnwrol (dan gadeiryddiaeth Mrs Ustus Eady)
- Pwyllgor Rhyngwladol (dan gadeiryddiaeth Arglwydd Ustus Snowden)
- Pwyllgor y Llyfrgell (dan gadeiryddiaeth Mr Ustus Andrew Baker)
- Pwyllgor Adnoddau (dan gadeiryddiaeth Ei Hanrhydedd y Barnwr Raeside)
- Pwyllgor Diogelwch (dan gadeiryddiaeth Mr Ustus Martin Spencer)

- Pwyllgor y Tribiwnlysoedd (dan gadeiryddiaeth Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd)
- Pwyllgor Cymru (dan gadeiryddiaeth yr Arglwyddes Brif Ustus)

Mae gan bob deiliad swydd farnwrol gyfrifoldeb ar y cyd i feithrin amgylchedd cadarnhaol, yn y llys ac y tu allan iddo, lle caiff pawb eu trin â pharch ac urddas. Mae'r farnwriaeth yn ddarostyngedig i'r Canllaw ar Ymddygiad Barnwrol a'r Datganiad ar Ymddygiad Disgwyliedig.

# Wythnos waith yr Arglwyddes Brif Ustus

Gellir darlunio ehangder gwaith yr uwch farnwriaeth orau drwy roi mewnwelediad i wythnos waith yr Arglwyddes Brif Ustus.

Mae'n eistedd ar yr achosion mwyaf difrifol a phwysig yn y Llys Apêl; felly bydd ei wythnos yn aml yn cynnwys amser i ddarllen papurau, eistedd yn y llys, a drafftio neu gyhoeddi dyfarniadau, gan gynnwys crynodebau i hyrwyddo cyfiawnder agored a thryloywder yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Y tu allan i'w dyletswyddau llys, bydd ei wythnos waith yn cynnwys cyfarfodydd mewnol gydag amryw o ddeiliaid swydd barnwrol sy'n cefnogi'r Arglwyddes Brif Ustus yn ei gwaith. Gall hyn gynnwys cyfarfodydd ag aelodau o'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol a barnwyr â chyfrifoldebau arweinyddol. Mae ganddi hefyd rôl lysgenhadol eang ac mae'n cyfarfod ag ystod o sefydliadau ac unigolion, megis gweinidogion, uwch swyddogion sifil, cymdeithasau barnwrol a phartneriaid cyfiawnder. Yn aml bydd yn mynychu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau a



gynhelir ledled y proffesiwn cyfreithiol, er enghraifft yn yr Inns of Court neu'r Old Bailey. Mae'n gweithio'n agos â'r Prif Weinidog, yr Arglwydd Ganghellor (LC), Ysgrifenyddion Gwladol eraill a Gweinidogion.

Mae'r LCJ yn ymgymryd â gwaith pwysig ond rheolaidd a chyson; er enghraifft, cymeradwyo penodiadau i swyddi arweinyddol ar gyfer deiliaid swydd barnwrol presennol nad ydynt yn cael eu rhedeg gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol annibynnol.

Bydd hefyd yn eistedd ar banelau'r JAC, neu'n eu cadeirio, yn unol â'r gofynion a nodir yn adran 79 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005.

Mae'r LCJ a'r LC yn gyfrifol ar y cyd am ddisgyblaeth farnwrol. Gyda chymorth y Swyddfa Ymchwiliadau i Ymddygiad Barnwrol annibynnol, bydd y LCJ yn penderfynu a oes camymddwyn wedi digwydd mewn cwynion a wneir. Os bydd y LC a'r LCJ yn canfod y bu camymddygiad, byddant yn rhoi cosb i'r deiliad swydd farnwrol.

Bydd y LCJ yn traddodi areithiau neu ddarlithoedd ac yn mynychu cynadleddau yn rheolaidd; bydd y digwyddiadau hyn yn cyd-fynd â negeseuon allweddol neu feysydd ffocws y farnwriaeth. Yn yr un modd, mae gan y LCJ galendr blynyddol o ymweliadau â'r chwe Chylchdaith farnwrol; bydd yr ymweliadau hyn yn cynnwys cyfarfodydd â barnwyr lleol ac ynadon, arsylwi gwrandawiadau ac achosion, a gweithgarwch estyn allan, megis ymweld ag ysgolion neu brifysgolion.

# Ymddygiad a Disgyblaeth

Mae'r Datganiad ar Ymddygiad Disgwyliedig yn parhau i osod y llinell sylfaen ar gyfer sut y dylai pob deiliad swydd barnwrol ymddwyn tuag at ei gilydd, at staff ac at ddefnyddwyr y llysoedd, y tu mewn a thu allan i'r ystafell wrandawiadau. Mae bod yn agored i adborth yn un o'r ymddygiadau a restrir ac mae canllawiau wedi'u cyflwyno i gefnogi rhoi a derbyn adborth. Parhawyd i ddarparu hyfforddiant ar gynhwysiant i'r farnwriaeth yn y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys i grwneriaid.

Mae Arolwg Agweddau Barnwrol 2024 wedi llywio cynlluniau i fynd i'r afael â materion, gan gynnwys bwlio, aflonyddu, gwahaniaethu ac ymddygiad eithrio. Cyflwynwyd proses ym mis Mai 2024 i gefnogi deiliaid swydd barnwrol i godi pryderon yn gyflym ac yn anffurfiol, os mai dyna eu dewis. Mae ffyrdd i eiriolwyr a chyfreithwyr godi pryderon hefyd yn cael eu hystyried. Datblygwyd a dosbarthwyd adnoddau i gynorthwyo â diffinio ymddygiadau sy'n ymwneud â bwlio, aflonyddu, gwahaniaethu ac ymddygiad eithrio ac i wella dealltwriaeth o effaith ymddygiad o'r fath ar draws y farnwriaeth.

Ym mis Medi 2025, cyhoeddwyd **Independent Review of Bullying, Harassment and Discrimination at the Bar** gan y Farwnes Harriet Harman CB, a gomisiynwyd gan Gyngor y Bar. Cyhoeddwyd **ymateb yr Arglwyddes Brif Ustus i'r adroddiad** ar wefan Judiciary.uk.

Mae'r adolygiad wedi gwneud nifer o argymhellion i Gyngor y Bar, y farnwriaeth a chyrff eraill. Mae'r farnwriaeth yn croesawu ffocws Cyngor y Bar ar y mater pwysig hwn ac yn gweithio gydag ef ar atebion.

# Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb yn sylfaenol i reolaeth y gyfraith ac yn sail i lawer o waith deiliaid swydd barnwrol. Mae'r argraffiad cyntaf o'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Barnwrol (2020 i 2025) bellach yn ei blwyddyn olaf. Dechreuwyd datblygu'r strategaeth newydd bum mlynedd (2026 i 2030) yn gynharach eleni, gan ddefnyddio mewnwelediadau o Arolwg Agweddau Barnwrol 2024, gwerthusiad o'r Strategaeth bresennol ac ymarferion ymgynghori â'r farnwriaeth. Disgwylir ei chyhoeddi'n gynnar yn 2026. Bydd diweddariadau cynnydd yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol. Mae grŵp o farnwyr ac ynadon yn gweithio i gefnogi cynhwysiant o fewn y farnwriaeth, ac fe'u gelwir yn Farnwyr Pwynt Ffocws Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol ac Ynadon Amrywiaeth yn ôl eu trefn.

Am yr ail flwyddyn, mi wnaeth y diweddariad blynyddol ar y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Barnwrol amlygu tan-gynrychiolaeth bresennol o farnwyr du fel maes ffocws, sef y grŵp mwyaf tan-gynrychioliedig. Mae digwyddiadau estyn allan wedi targedu'n benodol cyfreithwyr du i gefnogi'r ffocws hwn a sefydlwyd cysylltiadau â rhwydweithiau sy'n cynrychioli'r cyfreithwyr hyn. Nododd 10% o'r mynychwyr yn y digwyddiadau targed eleni eu bod yn ddu; mae hyn yn gymharol ffafriol o'i gymharu â'r gronfa gymwys o weithwyr proffesiynol cyfreithiol (3–4% yn nodi eu bod yn ddu). Adolygwyd ac ail-lansiwyd cynllun mentora barnwrol sydd wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol o gefndiroedd sy'n cael eu tan-gynrychioli, gan ganiatáu mwy o strwythur a chefnogaeth i'r cyfranogwyr. Mae 70+ o barau wedi ymuno â'r cynllun (20% yn nodi eu bod yn ddu), ac roedd yr adborth yn y digwyddiad lansio yn hynod gadarnhaol. Cynigiwyd interniaethau wythnos o hyd yn yr Uchel Lys a'r Llys Apêl i 18 o fargyfreithwyr o gefndiroedd sy'n cael eu tan-gynrychioli ym mis Tachwedd 2024, drwy'r elusen Bridging the Bar.

**"Rwy'n falch o adrodd am ymgysylltiad cadarnhaol gan amryw o ddeiliaid swydd barnwrol a fynychodd fy nghyfarfodydd bord gron ar amrywiaeth a chynhwysiant yn 2024, gan roi cyfle i mi wrando a dysgu ganddynt."**

Y Fonesig Philippa Whipple
Barnwr Arweiniol dros Amrywiaeth a Chynhwysiant, Arweinyddiaeth, Datblygu a Lles

Mi wnaeth diweddariad strategol blynyddol 2025 hefyd amlygu cefnogaeth i ddeiliaid swydd barnwrol anabl fel maes blaenoriaeth i sicrhau y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau barnwrol heb rwystrau diangen na gohiriadau wrth ddarparu addasiadau



rhesymol. Mae cydweithredu yn parhau rhwng y farnwriaeth, GLlTEF a'r MoJ i wella hyn. Diweddarwyd y canllawiau ar addasiadau yn y gweithle ym mis Rhagfyr 2024 a Pholisi Addasiadau Rhesymol ar gyfer Deiliaid Swydd Barnwrol MoJ ym mis Chwefror 2025. Am y tro cyntaf yn 2025, llwyddodd y farnwriaeth i gyhoeddi data sy'n dangos proffil deiliaid swydd barnwrol anabl. Bydd y data hwn yn cael ei olrhain dros amser ac yn llywio gwaith i gefnogi a hyrwyddo mwy o amrywiaeth yn y farnwriaeth yn y dyfodol.

Gwnaed hanes yn ystod Tachwedd 2024; Nick Hanning yw'r gweithredwr cyfreithiol cyntaf i dyngu llw fel Cofiadur. Nick oedd y Barnwr Cyflogaeth CILEx cyntaf pan gafodd ei benodi yn 2020, a gwnaeth hanes pellach fel y gweithredwr cyfreithiol cyntaf i gael ei benodi i lefel Mainc y Gylchdaith.

Mae Pwyllgor Amrywiaeth Barnwrol Cyngor y Barnwyr yn cefnogi'r Arglwyddes Brif Ustus i gyflawni ei dyletswydd statudol i annog amrywiaeth drwy weithredu'r strategaeth. Ymestynnwyd aelodaeth y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau cynrychiolaeth ehangach o ar draws y farnwriaeth. Ychwanegiad arwyddocaol yw'r Crwner Arweiniol Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd, Nadia Persaud.

Gweithgarwch allweddol i'r farnwriaeth yw ymgymryd â gweithgareddau estyn allan a chefnogi ceisiadau am swydd farnwrol gan y rheini sydd ar hyn o bryd yn cael eu tan-gynrychioli. Mae 130+ o farnwyr a 40+ o ynadon yn gwirfoddoli fel barnwyr ac ynadon Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol, gan wneud gwaith estyn allan gyda gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith, grwpiau cymunedol a sefydliadau addysgol. Cynhaliodd DCRJs tua 700

o ddigwyddiadau yn ystod 2024/25. Parhaodd y seminarau ar geisiadau barnwrol a'r cynlluniau cysgodi ar gyfer y rhai sy'n ystyried gwneud cais am swydd farnwrol am y tro cyntaf neu symud yn fewnol i rolau barnwrol eraill. Rhwng Awst 2023 a Medi 2024, ymgeisiodd 300+ o ymarferwyr cyfreithiol am le ar y Cynllun Cysgodi Gwaith Barnwrol. Mae dros 4,000 wedi cofrestru ar gyfer y seminarau ar geisiadau barnwrol ers Awst 2024. Nid yw'n bosib gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynlluniau hyn â chyfraddau ceisiadau am swydd farnwrol, gan fod ymgeiswyr efallai wedi manteisio ar fwy nag un rhaglen gefnogol a gynigir gan y farnwriaeth neu sefydliadau partner, megis y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC).

Mae'r Arglwyddes Brif Ustus yn cynrychioli'r farnwriaeth fel aelod o'r Fforwm Amrywiaeth Barnwrol, sydd hefyd yn cynnwys proffesiynau cyfreithiol, y JAC a'r MoJ. Ei nod gyffredin yw gwella amrywiaeth o fewn y farnwriaeth. Mae'r proffesiynau cyfreithiol yn rhanddeiliaid allweddol gan eu bod yn darparu'r llwybr i'r farnwriaeth. Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddwyd ystadegau wedi'u diweddaru ar amrywiaeth o fewn y farnwriaeth bresennol, y broses benodi, a'r proffesiynau cyfreithiol. Mae hyn yn darparu tueddiadau ar gyfer y farnwriaeth a'r proffesiynau cyfreithiol sy'n gronfa gymwys o ymgeiswyr posibl.

Mae'r farnwriaeth yn cydweithio â'r JAC drwy ddarparu 163 o farnwyr i weithredu fel tywyswyr barnwrol ar y Rhaglen Estyn Allan a Dargedir. Mae'r rhaglen ar gael i weithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith o grwpiau sy'n cael eu tan-gynrychioli ac mae'n cryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ymgeiswyr i ddeall holl agweddau'r broses ddethol. Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn cefnogi 449 o ymgeiswyr.

Mae'r Cynllun Mentora Barnwrol yn parhau i alluogi barnwyr i gael mewnwelediad i brofiadau a rhwystrau a wynebir gan weithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith o gefndiroedd sy'n cael eu tan-gynrychioli. Yn 2025 mae 35 o farnwyr yn cymryd rhan yn y cynllun.

# Cyfathrebiadau Barnwrol Mewnol

Mae Tîm Cyfathrebu'r Swyddfa Farnwrol wedi parhau i gefnogi cyfathrebiadau'r uwch farnwriaeth â phob deiliad swydd barnwrol, gyda'r nod o'u galluogi i deimlo'n perthyn i'r farnwriaeth, yn wybodus ac yn falch o fod yn rhan o'r farnwriaeth.

Mae'r tîm wedi adeiladu ar lwyddiant fforymau agored yr Arglwyddes Brif Ustus drwy gyflwyno digwyddiadau ar-lein ar ffurf 'mewn sgwrs'. Maent yn galluogi pob deiliad swydd barnwrol i glywed yn rheolaidd gan yr Arglwyddes Brif Ustus a'r uwch farnwriaeth am eu gwaith ac i ofyn cwestiynau ar y pynciau sy'n bwysig iddynt.

# Arweinyddiaeth

Dangosodd canlyniadau Arolwg Agweddau Barnwrol 2024, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2025, fod y mwyafrif o farnwyr yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a roddir iddynt gan eu barnwr arweinyddiaeth ac yn teimlo eu

bod yn cael eu trin yn deg. Mae barnwyr arweinyddiaeth yn ymgymryd â'u rolau ochr yn ochr â'u llwyth gwaith barnwrol ac felly mae'n bwysig bod cyfleoedd i ddatblygu a chefnogaeth yn cael eu darparu mewn ffyrdd sy'n eu galluogi i reoli'r cyfrifoldebau hyn. Gwelwyd rhagor o gynnydd eleni wrth ddatblygu adnoddau a chefnogaeth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth. Lansiwyd Fframwaith Sgiliau a Galluoedd Barnwrol (JSAF) wedi'i ddiweddaru ym mis Ionawr 2025, sy'n cefnogi recriwtio, gwerthuso, hyfforddi a datblygu, ac sy'n cynnwys adran newydd ar sgiliau arwain. Arweiniwyd y gwaith hwn gan yr Arglwyddes Ustus Falk a chydweithwyr barnwrol eraill, gyda chefnogaeth y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Mae'n bwysig bod barnwyr arweinyddiaeth newydd yn cael hyfforddiant cynefino amserol ac effeithiol. Gan barhau â'r dull a ddatblygwyd yn 2023/24, yn 2024/25 mynychodd Barnwyr Llywyddol newydd, yn ogystal â Barnwyr Preswyl, Barnwyr Sifil Dynodedig a Barnwyr Teulu Dynodedig, raglenni cynefino a ddarparwyd gan AD i'r farnwriaeth. Trefnwyd y rhain y tu allan i amser y llys ac i ategu hyfforddiant perthnasol y Coleg Barnwrol. I gefnogi Barnwyr Llywyddol newydd, cyflwynwyd menter 'Partneru Arweinyddiaeth', lle cynigir cyswllt iddynt â barnwr arweinyddiaeth profiadol. Mae gwaith datblygol wedi'i wneud ar hyd y flwyddyn i gryfhau a hyrwyddo'r cynnig mentora, gan gynnwys ar gyfer barnwyr arweinyddiaeth, neu'r rhai sy'n dymuno symud i rolau arweinyddiaeth.

Mae'n bwysig datblygu diwylliant o fod yn agored o ran rhoi a derbyn adborth o fewn y farnwriaeth, yn enwedig ymhlith barnwyr arweinyddiaeth. Cafodd y cynllun peilot 'Adborth Arweinyddiaeth' 12 mis a ddechreuodd y llynedd dderbyniad cadarnhaol ac mae bellach yn rhan o'r rhaglen datblygu arweinyddiaeth. Mae Sgyrsiau Arweinyddiaeth Strwythuredig, a lansiwyd ym mis Ionawr 2025, yn cynnig cyfle i farnwyr arweinyddiaeth drafod eu cynnydd gyda'u huwch farnwr arweinyddiaeth. Cyhoeddwyd canllawiau a chefnogaeth ychwanegol i farnwyr arweinyddiaeth wrth dderbyn a defnyddio adborth, a bydd mwy o adnoddau ar gael yn ystod blwyddyn gyfreithiol 2025/26.

# Recriwtio a Phenodiadau

Rhwng Awst 2024 a Medi 2025, penodwyd 907 o farnwyr ac aelodau nad ydynt wedi cymhwyso yn y gyfraith i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Cyhoeddwyd chwe phenodiad newydd yn y Llys Apêl: Y Fonesig Sara Cockerill DBE, Syr Ian Dove, Syr David Foxton, Y Fonesig Juliet May DBE, Syr David Miles a'r Fonesig Amanda Yip DBE.

Yn dilyn ymarfer recriwtio llwyddiannus arall, mae pob swydd yn yr Uchel Lys wedi'i llenwi. Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer yr ymarfer nesaf ar y gweill.

Lansiwyd ymarfer i recriwtio Barnwyr Cylchdaith ym mis Medi 2024, gyda'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (JAC) yn argymell 37 o ymgeiswyr i'w penodi. Mae'r ymarfer i recriwtio Barnwyr Rhanbarth i lenwi 80 o swyddi gwag yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr ar y gweill; bydd yr ymarfer sy'n anelu at recriwtio 15 o farnwyr yng

nghylchdeithiau Canolbarth Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd Lloegr, De-orllewin Lloegr a Chymru yn adrodd ym mis Chwefror 2026. Ar ddiwedd yr ymarfer i recriwtio Dirprwy Farnwyr Rhanbarth, argymhellodd y JAC 125 o ymgeiswyr ar gyfer eu penodi ar unwaith, gydag eraill yn cael eu hargymell ar gyfer penodiad yn y dyfodol.

Oherwydd nifer o newidiadau i bolisïau'r llywodraeth sy'n cynyddu'r galw ar y Tribiwnlysoedd (er enghraifft, newidiadau i'r ddeddfwriaeth gyflogaeth), mae angen recriwtio mwy o farnwyr i'r Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf. Bydd yr ymarferion recriwtio hyn yn rhan o Raglen Recriwtio annibynnol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar gyfer 2025–2026. Er enghraifft, mi wnaeth y JAC recriwtio dros 160 o farnwyr rhan-amser i'r Siambr Mewnfudo a Lloches, y Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol, y Siambr Hawliau Cymdeithasol a'r Siambr Pensiynau Rhyfel a'r Lluoedd Arfog. Gwnaed argymhellion ar gyfer penodi 72 o farnwyr cyflogedig yn Medi 2025.

Mae'r gwaith yn parhau i annog ceisiadau am swyddi barnwrol cyflogedig. Mae'r farnwriaeth, y proffesiynau cyfreithiol a'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol wedi ymroi'n llwyr i'r gwaith hwn.

# Hyfforddiant

Mae gan yr Arglwyddes Brif Ustus ddyletswydd statudol i sicrhau argaeledd trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant barnwriaeth y llysoedd; mae'r Coleg Barnwrol yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn drwy ddarparu rhaglen o hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi barnwyr ac ynadon o bob cefndir yn eu datblygiad proffesiynol.

Cyflwynodd y Coleg gyfanswm o 1,754 o seminarau hyfforddi i 29,663 o gyfranogwyr rhwng Hydref 2024 a Medi 2025. Roedd hyn yn cynnwys 100 o raglenni cynefino ar gyfer mwy na 2,400 o ddeiliaid swydd barnwrol a oedd naill ai'n newydd i'r rôl neu'n ymgymryd â chyfrifoldebau newydd. O'r rhai a roddodd adborth, sgoriodd 91% o farnwyr y llysoedd a 95% o ynadon eu hyfforddiant fel un a oedd yn cyflawni ei nodau a'i ganlyniadau.

Parhaodd y Coleg i gefnogi anghenion yr ynadaeth drwy gydol y cyfnod adrodd. Cyflwynwyd mwy na 1,300 o'r holl seminarau hyfforddi a gynhaliwyd eleni i'r ynadon a bu i 15,600 o gyfranogwyr eu mynychu. Lansiwyd llwybrau dysgu ym mis Hydref 2024, gan amlinellu dull strwythuredig o'r hyfforddiant gofynnol i ynadon yn ystod eu 18 mis cyntaf ar y fainc. Lansiwyd hyfforddiant ym mis Tachwedd 2024 i gefnogi ynadon i ymgymryd â phwerau dedfrydu estynedig.

Parhaodd y Coleg i gefnogi cynhwysiant ac amrywiaeth barnwrol. Darparwyd hyfforddiant i 363 o farnwyr newydd dros y cyfnod hwn ar feithrin cynhwysiant a hyrwyddo diwylliant cadarnhaol i bawb sy'n gweithio yn a gyda'r farnwriaeth. Roedd themâu amrywiaeth a rhoi o'r neilltu rhagfarn ddiarwybod yn elfennau canolog o hyfforddiant i ynadon yn y rhaglenni cynefino a hyfforddiant parhaus.

Parhaodd cefnogaeth i arweinyddiaeth farnwrol effeithiol drwy hyfforddiant fod yn ffocws pwysig. Darparodd y Coleg ddwy raglen 'Arweinyddiaeth Hanfodol' ar gyfer barnwyr arweinyddiaeth newydd yn ystod y cyfnod adrodd a threialodd ffordd newydd o ddarparu

hyfforddiant ar gyfer yr uwch farnwriaeth rhwng Mawrth a Mehefin 2025.

Cyhoeddwyd diweddariad interim i Lawlyfr Triniaeth Gyfartal y Fainc ym mis Mai 2025 i adlewyrchu datblygiadau yn y gyfraith ac arferion, gyda thystiolaeth berthnasol yn sail iddo. Mae'r Llawlyfr yn parhau i fod yn gyfeirlyfr craidd i arwain y farnwriaeth i sicrhau proses llys deg a chyfranogiad i bob parti. Cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddaru o Gompendiwm Llys y Goron ym mis Ebrill 2025, adnodd allweddol i farnwyr troseddol i gefnogi'r broses o reoli rheithgorau'n effeithiol a dedfrydu.

Cefnogodd y Coleg waith rhyngwladol y farnwriaeth, gan gynnwys drwy wneud cyflwyniad yn 11eg cynhadledd y Sefydliad Rhyngwladol ar Hyfforddiant Barnwrol ym mis Tachwedd 2024 ar addysg farnwrol, technoleg a deallusrwydd artiffisial. Roedd yr ymgysylltiadau eraill yn cynnwys cymryd rhan yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Astudiaethau Barnwrol y DU ac Iwerddon ym mis Rhagfyr 2024, a chefnogi ymdrechion i adeiladu capasiti barnwrol yn Wcráin, yn arbennig mewn perthynas ag erlyn troseddau rhyfel.

Mae holl ffigurau hyfforddi yn yr adran hon yn ffigurau pwrpasol a luniwyd ar gyfer yr adroddiad hwn i gwmpasu'r cyfnod Hydref 2024 i Medi 2025. Cyhoeddir ffigurau blynyddol manwl ar hyfforddiant yn adroddiadau gweithgareddau blynyddol y Coleg Barnwrol.

“

**Dim ond diolch i ymroddiad y barnwyr sy'n cyfrannu eu harbenigedd at ddylunio a darparu hyfforddiant, gwaith caled ei staff, ac ymrwymiad a brwdfrydedd pawb sy'n mynychu ei hyfforddiant y mae llwyddiannau'r Coleg yn bosibl.”**

Y Fonesig Eleanor King
Cadeirydd Bwrdd y Coleg Barnwrol

# Lles

Mae sicrhau argaeledd trefniadau priodol ar gyfer lles barnwriaeth Cymru a Lloegr, o fewn yr adnoddau a ddarperir gan yr Arglwydd Ganghellor, yn un o ddyletswyddau statudol yr Arglwyddes Brif Ustus. Yn ychwanegol at rôl Arglwyddes Ustus Whipple, mae yna ddau farnwr sy'n dal cyfrifoldeb portffolio dirprwyedig dros les barnwriaeth y llysoedd a'r tribiwnlysoedd sy'n darparu cymorth cyfoedion cyfrinachol i gydweithwyr a barnwyr arweinyddiaeth. Yn ogystal, penodir barnwyr lles lleol o fewn rhai awdurdodaethau a siambrau i gefnogi eu cydweithwyr.

Mae AD Barnwrol yn casglu gwybodaeth ystadegol ddienw gan ddarparwyr allanol a barnwyr lles i nodi unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg gyda golwg ar weithio gyda'r farnwriaeth i adnabod lle mae angen mwy o ffocws i ddiwallu eu gofynion iechyd a lles.

Defnyddir eitemau newyddion mewnol i hyrwyddo lansio mentrau lles newydd ac, yn gynyddol, ysgrifennir yr eitemau hyn gan ddeiliaid swydd barnwrol sy'n awyddus i wneud cydweithwyr yn ymwybodol o fanteision cymorth neu dynnu sylw at bwnc lles penodol.

Cyflwynwyd y Strategaeth Iechyd a Lles Barnwrol wreiddiol yn 2021 ac mae ar hyn o bryd dan adolygiad i benderfynu ar flaenoriaethau'r farnwriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd y Strategaeth newydd yn ystyried canlyniadau Arolwg Agweddau Barnwrol 2024 a data lles mewnol a gynhyrchwyd dros y 12 mis diwethaf, gan adeiladu ar y gwaith presennol. Bydd y Strategaeth newydd yn cael ei chefnogi gan gynllun gweithredu lles a gaiff ei adolygu'n flynyddol.

Datblygwyd ystod o gymorth lles dros y pum mlynedd diwethaf i gefnogi'r farnwriaeth gan gynnwys canllawiau newydd a chymorth seicolegol, emosiynol a straen pwrpasol. Rhwng Awst 2024 a Medi 2025, digwyddodd y canlynol:

- Creu gwefan ac ap lles yn y gweithle unigryw i'r farnwriaeth, a ddatblygwyd ar y cyd â'n darparwr Iechyd Galwedigaethol. Mae'r platfform yn cynnwys adran benodol i arweinwyr barnwrol gyda deunyddiau cefnogi a dolenni at ganllawiau barnwrol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau bugeiliol yn effeithiol. Lansiwyd y platfform, sy'n cynnwys fideos, podlediadau a thaflenni ffeithiau ar ystod o bynciau iechyd a lles, ar 12 Mawrth 2025.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaeth cyfryngu barnwrol yn dilyn adborth gan aelodau o'r farnwriaeth; bydd y gwasanaeth newydd yn cael ei alw'n 'Sgyrsiau Hwyluso Cynnar' a bydd yn galluogi dull mwy hyblyg o ddatrys anghydfodau yn y gweithle sy'n fwy addas i ofynion barnwrol. Lansiwyd y gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2025.

**Mae diogelwch y farnwriaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn faes o bryder parhaus. Rydym yn gweld gormod o achosion o farnwyr yn profi bygythiadau ac aflonyddwch, yn gorfforol ac ar-lein."**

Syr Nicholas Green
Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr

# Deallusrwydd Artiffisial

Mae Dirprwy Bennaeth Cyfiawnder Sifil, Arglwydd Ustus Birss, wedi parhau i arwain grŵp barnwrol traws-awdurdodaethol sy'n goruchwylio'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial o fewn y farnwriaeth. Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddwyd fersiwn wedi'i diweddaru o'r canllawiau ar DA, gyda geirfa estynedig o dermau allweddol a mwy o fanylion ar risgiau megis gwybodaeth gamarweiniol, rhagfarn ac ansawdd setiau data.

Mae gan bob barnwr arweinyddiaeth fynediad at Microsoft Copilot 365. Yn ogystal, mae gan bob deiliad swydd barnwrol arall fynediad at Copilot Chat drwy eJudiciary. Mae'r adnoddau hyn

yn darparu cymorth DA cynhyrchiol ar gyfer tasgau megis crynhoi, drafftio ac adalw gwybodaeth.

Mae gwybodaeth am y ddau adnodd wedi'i chynnwys yn y Canllaw DA Barnwrol wedi'i ddiweddaru, sy'n nodi egwyddorion ar gyfer defnydd cyfrifol o DA o fewn y farnwriaeth.





# Ymgysylltiadau Allanol a Rhyngwladol



Agwedd allweddol o gyfrifoldebau'r Arglwyddes Brif Ustus yw hyrwyddo dealltwriaeth ehangach ymysg y cyhoedd o rôl y farnwriaeth, gweinyddu cyfiawnder a rheolaeth y gyfraith.

Cefnogir yr amcanion hyn gan bwyllgorau perthnasol Cyngor y Barnwyr, ynghyd ag ymgyrchoedd a mentrau eraill, megis y Bwrdd Tryloywder a Chyfiawnder Agored a bodolaeth Barnwyr Cyswllt Seneddol. Mae llawer o farnwyr yn ymgymryd ag ymgysylltiadau rhyngwladol, a all gynnwys ymgysylltiadau diplomyddol, rhannu gwybodaeth a hyfforddiant. Mae deiliaid swyddi barnwrol eraill yn gwirfoddoli fel barnwyr ac ynadon Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol, gyda'r nod o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn cefnogi'r llwybr datblygu ar gyfer barnwyr ac ynadon y dyfodol.

# Cyfathrebiadau Allanol

Trefnodd Tîm Cyfathrebu'r Swyddfa Farnwrol a'r Swyddfa Wasg amrywiaeth o weithgareddau cyfathrebu ar ran y farnwriaeth i helpu gwella dealltwriaeth a gwybodaeth y cyhoedd am waith a rôl y farnwriaeth.

Lansiwyd cyfres newydd o fideos o'r enw 'Pwy ydw i i farnu?' ym mis Awst 2025, gyda'r ffilmiau byr sy'n weddill yn cael eu rhyddhau yn ystod y flwyddyn. Yn y fideos hyn, mae dau ddeiliad swydd barnwrol yn trafod eu cefndiroedd gwahanol ynghyd â'r hyn sydd ganddynt yn gyffredin.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i chwarae rhan werthfawr wrth gyrraedd amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, gyda 130,000 o ddilynwyr a thanysgrifwyr ar draws y pum sianel a ddefnyddir gan y farnwriaeth: Facebook, Instagram, LinkedIn, X a sianel YouTube UK Judiciary. Mae hyn yn gynnydd o 10,000 o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol.

Mae'r tîm cyfathrebu yn parhau i weithio'n agos gyda'r MoJ ar ymgyrchoedd i recriwtio ynadon ar draws Cymru a Lloegr. Cyfrannodd hyn at recriwtio 894 o ynadon newydd yn 2024–25.



Mae dyfarniadau a sylwadau dedfrydu ar gael i'r cyhoedd a'r cyfryngau mewn modd amserol; mae hyn yn sicrhau y rhoddir sylw cynhwysfawr a chywir i waith y farnwriaeth. Gall crynodebau i'r wasg gael eu darparu mewn achosion cymhleth neu rai o ddiddordeb mawr i gynorthwyo gyda dealltwriaeth penderfyniadau'r Llys; yn ystod y cyfnod adrodd, y crynodeb wasg a gafodd ei lawrlwytho fwyaf oedd achos *Home Secretary and Somani Hotels -v- Epping Forest District Council* a gafodd ei lawrlwytho 5,465 o weithiau. Mae gwaith yn cael ei wneud i gynyddu nifer y crynodebau i'r wasg a gynhyrchir ar draws yr holl farnwriaeth.

Yn ychwanegol at gyhoeddiadau ar-lein, cynhelir cynhadledd i'r wasg flynyddol gan yr Arglwyddes Brif Ustus, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2025, gan roi cyfle i'r cyfryngau cenedlaethol ac arbenigol ofyn cwestiynau ar bynciau o ddiddordeb iddynt.

Mae darlledu sylwadau dedfrydu wedi cynyddu, gyda 45 o ddedfrydau wedi'u darlledu rhwng 1 Medi 2024 ac 11 Gorffennaf 2025, o'i gymharu â 40 yn ystod y cyfnod 31 Awst 2023 i 1 Medi 2024. Mae hyn yn galluogi'r cyhoedd i weld a chlywed barnwyr yn y Llys y Goron yn egluro'r rhesymau dros eu dedfrydau, gan gynorthwyo i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r modd y caiff penderfyniadau eu gwneud. Y darllediad a gafodd ei wylio fwyaf yn ystod y cyfnod adrodd oedd *The King -v- Linda De Sousa Abreu* yn Ionawr 2025, a gafodd ei wylio 486,000 o weithiau.

# Y Proffesiwn Cyfreithiol

Mae perthynas y farnwriaeth gyda Chyngor y Bar, Cymdeithas y Gyfraith, a'r Sefydliad Siartredig o Weithredwyr Cyfreithiol yn parhau i fod yn gadarn. Mae'r Arglwyddes Brif Ustus wedi cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr uwch o bob cangen o'r proffesiwn dros y 12 mis diwethaf.

Traddododd yr Arglwyddes Brif Ustus ddarlith Syr Henry Brooke 2025 ym mis Mawrth 2025. Ei thema oedd "gwerthfawrogi cyfreithwyr."

Ym mis Mehefin 2025, traddododd Arglwyddes Brif Ustus brif anerchiad yng Nghynhadledd y Bar ym Mirmingham. Ei thema oedd dyfodol y farnwriaeth a'r angen am gydweithrediad agos â'r proffesiwn cyfreithiol.

Cyhoeddodd Gyngor y Bar ganllawiau ym mis Gorffennaf 2025 ar wisg y llys ar gyfer bargyfreithwyr; fe'u cymeradwywyd gan yr Arglwyddes Brif Ustus a'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol.

Mae'r ymgysylltiad â'r proffesiynau cyfreithiol yn parhau, gyda digwyddiadau ar-lein o'r enw "mewn sgwrs" wedi'u cynllunio ar gyfer blwyddyn gyfreithiol 2025/26 gyda Chadeirydd Cyngor y Bar a Chymdeithas y Gyfraith, yn ôl eu trefn.



# Ymgysylltu ag Ysgolion

Yn gyffredinol, mae'r Barnwyr Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol (DCRJs) ac Ynadon Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol (DCRMs) wedi ymweld â dros 380 o ysgolion cynradd ac uwchradd, colegau a sefydliadau addysg bellach fel rhan o'u gwaith allgymorth dros gyfnod o 12 mis. Mae'r DCRJs a'r DCRMs yn helpu i hysbysu ac addysgu'r cyhoedd am beth mae deiliaid swyddi barnwrol yn ei wneud, yn ogystal ag annog unigolion o gefndiroedd sy'n cael eu tan-gynrychioli i ystyried gyrfa farnwrol. Mae'r ymweliadau hyn â sefydliadau addysgol, fel rhan o Raglen Allgymorth Ysgolion a Phrifysgolion, yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r ddau amcan hyn. Ymgymerwyd ag ystod eang o weithgareddau yn y digwyddiadau allgymorth hyn ag ysgolion, gan gynnwys ymweliadau ag ysgolion a llysoedd, treialon ffug, a mentrau addysgol a gyflwynwyd mewn partneriaeth â'r Amgueddfa Cyfiawnder Cenedlaethol (NJM) a Young Citizens. Mae'r NJM, yn arbennig, yn cefnogi amcanion Amrywiaeth a Chynhwysiant y farnwriaeth drwy ganolbwyntio ar weithgareddau gyda "grwpiau amrywiol nad ydynt wedi ymgysylltu eto."

Mi wnaeth yr Arglwyddes Brif Ustus ynghyd â Mr Ustus Poole, Barnwr Llywyddol Teuluol Cylchdaith Gogledd-ddwyrain Lloegr, a barnwyr lleol, Ei Anrhydedd y Barnwr Mark Thomas ac Ei Hanrhydedd y Barnwr Joanne Kidd, ymweld ag Outwood Academy Riverside yn Middlesbrough ym mis Mehefin 2025 i siarad â disgyblion am waith barnwyr, y system gyfiawnder, a rheolaeth y gyfraith.

# Tryloywder a Chyfiawnder Agored

Mae'r Bwrdd Tryloywder a Chyfiawnder Agored yn cael ei gadeirio gan Mr Ustus Nicklin, ac mae wedi cyflawni llawer ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2024.

Mae'r Bwrdd wedi gwahodd y cyrff sydd â chyfrifoldeb statudol dros reolau trefniadaeth llysoedd a thribiwnlysoedd i ystyried cynnwys cyfeiriad penodol at gyfiawnder agored yn eu hamcanion cyffredinol. I symud y gwaith hwn yn ei flaen, mae aelodaeth y Bwrdd wedi'i ehangu i gynnwys cynrychiolwyr o bob pwyllgor rheolau trefniadaeth, ac eithrio'r Pwyllgor Trefniadaeth Teulu. Mae Llywydd yr Adran Deulu eisoes wedi sefydlu'r Grŵp Gweithredu Tryloywder i wreiddio cyfiawnder agored a thryloywder o fewn yr Adran Deulu, ac mae'r Grŵp hwnnw'n cael ei gynrychioli ar y Bwrdd i sicrhau cynnydd cydgysylltiedig. Mae'r broses o gyfnewid arsylwyr wedi'i ffurfioli gyda Grŵp Llywio Cyfiawnder Agored yr Alban (a gaiff ei gadeirio gan yr Arglwydd Lywydd, Arglwydd Pentland), ac mae cynrychiolaeth o'r ynadaeth ynghyd â chyfranogiad gan Ddirprwy Brif Grwner Cymru a Lloegr, yn sicrhau safbwyntiau traws-awdurdodaethol.

Rhwng Rhagfyr 2024 a Chwefror 2025, cynhaliodd y Bwrdd ymarfer ymgysylltu cyhoeddus ar ei Brif Amcanion, gan dderbyn 48 o ymatebion. Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â phwysleisio cyfiawnder agored fel sail i gyfreithlondeb cyfreithiol, gan sicrhau aliniad â chyfraith gwlad ac Erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ynghyd ag arweiniad ar dryloywder mewn penderfyniadau a wneir heb wrandawiad. Cyhoeddwyd fersiwn derfynol o'r Prif Amcanion, ynghyd ag ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, ym mis Gorffennaf 2025, a byddant yn gweithredu fel pwynt cyfeirio strategol ar gyfer diwygiadau tryloyw.

Mae'r Llys Apêl (Adran Sifil) wedi lansio cynllun peilot i ddarparu mwy o wybodaeth am rai o'r achosion a ddarlledir yn fyw drwy ddarparu dadleuon fframwaith a dyfarniadau ar dudalen y darllediad byw. Lansiwyd y cynllun ar 1 Ebrill 2025 a bu'n rhedeg hyd at 31 Gorffennaf 2025, gydag un achos yr wythnos yn cael ei ddewis i brofi perfformiad y system a phrofiad defnyddwyr. Ni chofnodwyd unrhyw broblemau technegol neu wrthwynebiadau. Cafodd cod QR diogel ei arddangos hefyd y tu allan i'r ystafell llys, gan alluogi'r sawl oedd yn bresennol i gael mynediad at y dogfennau perthnasol. Caiff y peilot ei adolygu gyda'r bwriad o'i ehangu yn ystod hydref 2025.

Mae is-bwyllgor o'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol, sy'n edrych ar wella mynediad cyhoeddus at ddogfennau, wedi cynnig cyflwyno cynllun peilot ar gyfer darparu dogfennau ar-lein sy'n dod i'r parth cyhoeddus. Byddai'r dogfennau hyn wedyn ar gael i'r cyhoedd yn yr un modd ag y mae ffurflenni hawliad, plediadau a gorchmynion sydd eisoes ar gael. Disgwylir i'r cynllun peilot hwn gael ei lansio yn y Llys Masnach, y Rhestr Ariannol a Chylchdaith Llundain y Llys Masnach yn ystod hydref 2026.

Mae'r gwaith o gyhoeddi dyfarniadau o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Mewnfudo a Lloches) wedi symud o bennu egwyddorion i gynllunio sut y bydd yn gweithredu'n ymarferol. Ar y cyd â GLITEF, mae'r Bwrdd yn adolygu'r llwyfannau a'r prosesau gorau i sicrhau bod pob dyfarniad ar gael yn gyhoeddus. Fel cam dros dro, cyflwynwyd proses ymgeisio ar gyfer sefydliadau'r cyfryngau yn ystod haf 2025. Disgwylir i ymarfer cwmpasu i arwain y lansiad llawn o'r broses gyhoeddi gael ei gwblhau o fewn y tri i chwe mis nesaf.

Yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywydd Adran Mainc y Brenin (PKBD) i ymestyn darlledu i'r Llys Gweinyddol, mae'r Bwrdd yn gweithio gyda'r MoJ i archwilio'r posibilrwydd o fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Bydd manylion pellach ar gael wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Mae GLITEF yn penodi Pencampwyr Cyfiawnder Agored ar gyfer Llysoedd a Thribiwnlysoedd ar sail ranbarthol. Bydd y Pencampwyr hyn yn gweithredu fel pwynt cyswllt unigol i farnwyr, staff y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, y cyfryngau a'r cyhoedd ar faterion ynghylch cyfiawnder agored – er enghraifft, mynediad at wrandawiad o bell. Byddant yn bwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau neu broblemau sy'n ymwneud â chyfiawnder agored.

# Gweithio gyda'r Llywodraeth a'r Senedd

Yn unol â chyfrifoldebau statudol Yr Arglwyddes Brif Ustus, ac yn unol â'r gofynion cyfansoddiadol, mae'n ddyletswydd arni i ymgysylltu'n rheolaidd â'r llywodraeth fel sy'n briodol ac yn angenrheidiol.

Mae'r Arglwyddes Brif Ustus wedi cwrdd yn rheolaidd â'r Arglwydd Ganghellor. Mae hi hefyd wedi cwrdd ag Ysgrifennydd Parhaol presennol, dros dro a blaenorol MoJ (Dr Jo Farrar CB DBE, Amy Rees, a'r Fonesig Antonia Romeo, yn y drefn honno), ac uwch swyddogion eraill o fewn MoJ. Mae'r pynciau a drafodwyd yn rheolaidd gyda'r Arglwydd Ganghellor wedi cynnwys materion sy'n effeithio ar y farnwriaeth gan gynnwys cyllid, effeithlonrwydd, moderneiddio, capasiti'r carchardai, rheolaeth y gyfraith ac annibyniaeth a recriwtio barnwrol. Mae canlyniadau posibl yr Adolygiad Annibynnol ar Ddedfrydu, dan arweiniad y cyn Arglwydd Ganghellor David Gauke, a'r Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol, dan arweiniad cyn-Lywydd Adran Mainc y Brenin (bryd hynny y Frenhines), Syr Brian Leveson, hefyd wedi ffurfio rhan o'r trafodaethau hyn.

Mi wnaeth yr Arglwyddes Brif Ustus gwrdd â'r Prif Weinidog ddwywaith yn ystod y cyfnod adrodd i drafod ystod eang o bynciau o ddiddordeb cyffredin. Cynhaliwyd eu cyfarfod mwyaf diweddar ym mis Awst 2025.

Hefyd, mi wnaeth yr Arglwyddes Brif Ustus gwrdd ag uwch swyddogion



a gweinidogion o nifer o adrannau'r llywodraeth, yn ogystal ag Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Mawrth. Mae aelodau eraill o'r uwch farnwriaeth hefyd yn cynnal cyfarfodydd deublyg gyda gweinidogion perthnasol i sicrhau bod safbwyntiau'r farnwriaeth ar oblygiadau ymarferol penderfyniadau polisi yn cael eu trosglwyddo i'r llywodraeth.

Mi wnaeth yr Arglwyddes Brif Ustus gwrdd â Llefarydd Tŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf, pan ymwelodd ef â'r Llysoedd Barn Brenhinol ac arsylwi achosion yn cael eu gwrando.

Rhoddodd Yr Arglwyddes Brif Ustus dystiolaeth i Bwyllgor Dethol ar Gyfiawnder Tŷ'r Cyffredin ym mis Tachwedd 2024. Mi ymddangosodd hefyd gerbron Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi yn Chwefror 2025.

Arweiniodd etholiad cyffredinol 2024 at nifer sylweddol o Aelodau Seneddol yn gadael y Senedd. Yn Ebrill 2025, mi wnaeth yr Arglwyddes Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd wahodd pob Aelod Seneddol i ymweld â'u canolfannau llys a thribiwnlys lleol, gyda'r nod o gynorthwyo Aelodau Seneddol i ddatblygu eu dealltwriaeth o waith y farnwriaeth a'r hyn sy'n digwydd o ddydd i ddydd yn y llysoedd yn eu hetholaethau. Ers gwanwyn 2025, mae 47 o ymweliadau wedi'u cynnal, mae 42 wedi'u trefnu ar gyfer dyddiad yn y dyfodol ac mae 39 yn aros i ddyddiad gael ei gadarnhau.

Mae'r Barnwyr Cyswllt Seneddol wedi parhau â'u gwaith i gefnogi'r ymdrech i feithrin y ddealltwriaeth hon, gan ymuno â'r Arglwyddes Brif Ustus mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan uwch glercod seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Chwefror. Dilynwyd hyn gan yr Arglwyddes Brif Ustus yn cynnal derbyniad i staff pwyllgorau seneddol yn y Llysoedd Barn Brenhinol yn Rhagfyr 2023. Nod yr ymgysylltiad hwn yw cynyddu gwybodaeth am y system gyfiawnder ymhlith pawb sy'n gweithio yn y Senedd.

# Rhyngwladol

Mae barnwriaeth Cymru a Lloegr wedi ymgysylltu'n rhyngwladol i hyrwyddo rheolaeth y gyfraith a gwerthoedd barnwrol, gan gynnwys drwy hyfforddi a chefnogi barnwyr mewn awdurdodaethau eraill, cynnal ymweliadau rhyngwladol a chymryd rhan mewn cynadleddau rhyngwladol. Mae'r ymgysylltiad hwn yn cynnal ac yn gwella enw da'r farnwriaeth ar ragoriaeth ac annibyniaeth farnwrol ledled y byd. Mae hefyd yn hybu mabwysiadu'r egwyddorion a'r arferion sylfaenol sy'n sail i gyfraith Cymru a Lloegr yn rhyngwladol; yn cynnal goruchafiaeth cyfraith Cymru a Lloegr fel y gyfraith o ddewis mewn cyllid a masnach ryngwladol; yn gwella apêl Cymru a Lloegr fel canolfan flaenllaw ar gyfer datrys anghydfodau rhyngwladol; yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau cyfreithiol rhyngwladol gan gwmnïau cyfreithiol y DU; ac yn annog buddsoddi mewnol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r farnwriaeth wedi croesawu nifer sylweddol o Brif Ustusiaid ac uwch farnwyr eraill ar ymweliadau â'r awdurdodaeth hon, fel rhan o Agoriad y Flwyddyn Gyfreithiol ym mis Hydref 2024 neu dros gyfnod y flwyddyn gyfreithiol.

Lansiodd yr Arglwyddes Brif Ustus y strategaeth ryngwladol newydd ym mis Mai 2025 sy'n nodi'r gymysgedd o flaenoriaethau thematig a daearyddol ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Bydd y cynlluniau blynyddol a gymeradwywyd yn canolbwyntio ar awdurdodaethau a sefydliadau blaenoriaethol ar draws Ewrop, y Gymanwlad a rhanbarthau byd-eang eraill.

Mae'r blaenoriaethau strategol penodol a nodir yn y Strategaeth Farnwrol yn cynnwys hyrwyddo:

1. rheolaeth y gyfraith a datblygu gallu;
2. cyfraith ariannol a masnachol ryngwladol;
3. cyfraith deulu rhyngwladol;
4. arloesedd technolegol;
5. cyfraith amgylcheddol rhyngwladol.

## Ymweliadau â Chymru a Lloegr

Derbynnir ceisiadau rheolaidd i ymweld â ni gan farnwyr o bob cwr o'r byd, gyda bron i 40 o ymweliadau o awdurdodaethau rhyngwladol wedi'u cynnal rhwng Ionawr 2024 a Mai 2025. Yn ystod 2025, ymwelodd barnwyr o bob lefel o Siapan, Nepal, Tanzania, Awstralia, Ghana, Turkmenistan, Kazakhstan, Albania, Ffrainc a Moldofa.

Mae'r ymgysylltiadau hyn yn galluogi barnwyr tramor i gael mewnwelediad i system farnwrol Cymru a Lloegr, ac yn rhoi cyfle i farnwyr lleol hyrwyddo arferion gorau, cryfhau cydweithrediadau barnwrol, a meithrin dealltwriaeth ddyfnach o systemau cyfreithiol gwahanol.

## Ymgysylltiadau Allanol

### Y Gymanwlad

O fewn y Gymanwlad, parhaodd ein ymgysylltiadau â nifer o awdurdodaethau. Roedd Malaysia yn ffocws pwysig, a pharhawyd â'r hyfforddiant i ynadon yn Nigeria, gan gyfuno gweminarau ar-lein a sesiynau wyneb yn wyneb. Ymgysylltwyd hefyd â Jamaica i gynorthwyo gyda datblygiad eu coleg barnwrol cenedlaethol.

## Ewrop

Mae ein ymgysylltiadau â chymheiriaid barnwrol Ewropeaidd wedi parhau drwy aelodaeth o nifer o sefydliadau. Drwy'r Rhwydwaith Hyfforddiant Barnwrol Ewropeaidd, mi wnaeth barnwyr y DU fynychu seminarau ar amrywiaeth o bynciau yn ogystal â rhaglenni cyfnewid ledled Ewrop. Datblygwyd cydweithrediadau dwyochrog â gwladwriaethau Gorllewin y Balcana, gan gynnwys trwy bartneriaeth cyfnewid barnwrol a rhaglen hyfforddi yn Albania a datblygu cysylltiadau yn Montenegro.

Mae ein barnwyr hefyd wedi parhau i hyfforddi barnwyr o Wcráin ar sawl pwnc, gan gynnwys rheoli treialon troseddau rhyfel, yn dilyn sesiynau llwyddiannus blaenorol. Mae cyfleoedd pellach ar gyfer hyfforddi wedi'u hadnabod a chymorth barnwrol arbenigol wedi'i geisio.

## Cyfraith Deulu Rhyngwladol

O safbwynt cyfraith deulu rhyngwladol, mae barnwyr wedi parhau i gryfhau eu perthnasau ag awdurdodaethau eraill (gan gynnwys aelodau o Rwydwaith Rhyngwladol Barnwyr yr Hâg). Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys mynychu cynadleddau a chyfarfodydd rhyngwladol i drafod gweithrediad ymarferol Confensiwn ar Herwgydio Plant 1980 a Chonfensiwn Amddiffyn Plant 1996. Mae'r ymgysylltu hwn wedi cyfrannu at y nod cyffredinol o ddatblygu dulliau cyffredin o ymdrin â chyfraith teulu, hyrwyddo gweithrediad effeithiol a chyson offerynnau rhyngwladol, a chynorthwyo i ddatrys achosion unigol yn gyflym.

## Cyfraith Ariannol a Masnachol Rhyngwladol

Mae barnwyr o'r Llysoedd Busnes ac Eiddo sy'n ymwneud â chyfraith eiddo deallusol, cyfraith cystadleuaeth, ac ansolfedd ac ailstrwythuro wedi parhau i ymgysylltu â barnwyr o awdurdodaethau eraill drwy gyfarfodydd dwyochrog, cynadleddau rhyngwladol, a hyfforddiant rhyngwladol. Mae'r awdurdodaethau yr ymwelwyd â hwy wedi cynnwys nifer o aelod-wladwriaethau'r UE, yr Unol Daleithiau, Canada, Brasil a Singapore.

## Fforwm Sefydlog Rhyngwladol y Llysoedd Masnach

Mae Fforwm Sefydlog Rhyngwladol y Llysoedd Masnach (SIFoCC) yn fforwm sy'n dwyn ynghyd llysoedd masnach ac apêl y byd i hwyluso cydweithredu a chydweithio barnwrol rhwng awdurdodaethau.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae SIFoCC wedi parhau i gynyddu ei aelodaeth fyd-eang, sydd bellach yn cynnwys 65 o farnwriaethau. Cynhaliwyd trafodaethau bord gron ar-lein ar bynciau megis cyfraith forwrol a chyfraith ansolfedd, gan ddenu diddordeb sylweddol. Yn ogystal, cynhaliodd SIFoCC ei drafodaeth bord gron gyfandirol benodol gyntaf yn Uganda yn Mai 2025 mewn partneriaeth â Fforwm Prif Ynadon Affrica ar Ddatrys Anghydfodau Amgen (ACJADR Forum). Canolbwyntiodd y digwyddiad ar ddatrys anghydfodau masnachol effeithiol ar gyfer Affrica, gan ddod â Phrif Ynadon ac uwch aelodau o'r farnwriaeth o dros 20 o awdurdodaethau ar draws y cyfandir ynghyd. Hefyd, cynhaliodd SIFoCC ei chweched rhaglen arsylwi yn Adeilad Rolls yn Llundain ym mis Mehefin 2025 ar gyfer barnwyr o Montenegro, Y Gambia, Fietnam, Cambodia ac Wcráin.





# Gweithgarwch Arall



# Gweithgarwch Barnwrol

## Crwneriaid

Mae awdurdodaeth y Prif Grwner yn cwmpasu Cymru a Lloegr ac yn cynnwys ystod o bwerau a dyletswyddau ffurfiol, gan gynnwys pwerau helaeth i reoli achosion, goruchwylio penodiadau crwneriaid a riportio i'r Arglwydd Ganghellor ar y system grwneraidd ar ffurf adroddiad blynyddol. Mae'r Prif Grwner yn darparu arweinyddiaeth farnwrol genedlaethol i Grwneriaid, sy'n cynnwys darparu canllawiau a hyfforddiant.

Ar 4 Rhagfyr 2024, cyhoeddwyd, yn unol â Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, fod yr Arglwyddes Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor wedi penodi Ei Hanrhydedd y Barnwr Georgina Sharkey a'r Uwch Grwner Joanne Kearsley yn Ddirprwy Brif Grwneriaid Cymru a Lloegr. Gwnaed y penodiadau hyn yn dilyn penodiad Ei Hanrhydedd y Barnwr Alexia Durran yn Brif Grwner ac ymddeoliad yr Uwch Grwner Derek Winter. Daeth y penodiadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2025 am dymor o dair blynedd.

Yn Mai 2025, cafodd Ei Hanrhydedd y Barnwr Dhir CB ei henwebu gan yr Arglwyddes Brif Ustus, ar ôl ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor, o dan baragraff 3, Atodlen 10 i Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, i ymchwilio i farwolaeth Alexander Ahmed Kareem.

Yn Mehefin 2025, daeth y Prif Grwner â'r cwest i ben ynghylch marwolaeth Rhianan Rudd, ar ôl cael ei henwebu i gynnal yr ymchwiliad ym mis Rhagfyr

2023, a daeth y cyn Brif Grwner â'r ymchwiliad ynghylch marwolaeth Jumal Uddin i ben yn mis Gorffennaf 2025.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfrifol am gyhoeddi ystadegau crwner blynyddol ar amryw o faterion, gan gynnwys:

- nifer y marwolaethau a adroddwyd i ardal crwner;
- cwestau ac archwiliadau post-mortem a gynhaliwyd;
- casgliadau cwestau a gofnodwyd; a
- darganfyddiadau a adroddwyd i grwneriaid o dan y ddeddfwriaeth.

Mae ystadegau blynyddol 2024, a gyhoeddwyd ar 8 Mai 2025, yn cwmpasu'r flwyddyn galendr ac yn dangos gostyngiad yn nifer y marwolaethau a adroddwyd i grwner. Adroddwyd ar 174,900 o farwolaethau, sef gostyngiad o 10% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac yn isafswm ers 1995. Er bod nifer y marwolaethau wedi gostwng, gellir tybio bod cymhlethdod yr achosion a adroddir yn cynyddu gan fod nifer yr achosion y bu angen archwiliad post-mortem arnynt wedi cynyddu. Yn ôl y dystiolaeth anecdotaidd sydd ar gael, mae'n debygol fod y gostyngiad yn gysylltiedig â gweithredu'r Diwygiadau Ardystio Marwolaeth a'r cynllun Archwilydd Meddygol Statudol a gyflwynwyd ar 9 Medi 2024. Fodd bynnag, gan fod cyfnod adrodd yr ystadegau yn Ionawr i Rhagfyr 2024, disgwylir y bydd ystadegau 2025 yn rhoi mwy o dystiolaeth o effaith y diwygiadau.

Ar 1 Gorffennaf 2025, cyflwynwyd Gorchymyn Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (Newid Ardaloedd Crwneriaid) 2025 gerbron y Senedd, gan uno ardaloedd crwner Canolbarth a De-ddwyrain Caint, Canol Caint a Medway, Gogledd-ddwyrain Caint a Gogledd-orllewin Caint i greu ardal grwner newydd o'r enw Caint a Medway. O ganlyniad i'r uno hwn, mae yna nawr 74 o ardaloedd crwner ar draws Cymru a Lloegr.

Ym mis Medi 2025, cyhoeddodd y Prif Grwner ei hadroddiad blynyddol statudol cyntaf i'r Arglwydd Ganghellor, yn cwmpasu flwyddyn galendr 2024, yn unol ag adran 35 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009. Mae'r adroddiad yn cynnwys sawl eitem, gan gynnwys y rhai y mae dyletswydd statudol arni i adrodd arnynt. Bydd yn darparu asesiad ar gyfer y flwyddyn o gysondeb safonau rhwng ardaloedd crwner, Adroddiadau i Atal Marwolaethau yn y Dyfodol, a marwolaethau Personél y Lluoedd Arfog. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb ar gyfer y flwyddyn ar nifer a hyd yr achosion a barhaodd dros flwyddyn, gan ddechrau gyda'r diwrnod y cafodd y crwner wybod bod corff yr unigolyn o fewn ardal y crwner.

## Llysoedd Dinas Llundain

Mae'r gwaith i adeiladu Llysoedd Barn newydd Dinas Llundain yn Sgwâr Salisbury wedi symud ymlaen yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Y Dirprwy Uwch Farnwr Llywyddol, Arglwyddes Ustus Yip, yw'r arweinydd barnwrol ar y prosiect, gyda chefnogaeth Mr Ustus John Cavanagh. Mae'r Arglwyddes Brif Ustus a'r PKBD yn parhau i ddilyn datblygiadau'r prosiect cyffrous hwn yn agos, a fydd yn darparu canolfan aml-awdurdodaeth yng nghanol y ddinas. Bydd yr adeilad llys newydd yn cynnwys wyth Llys y Goron, pum llys sifil a phedwar llys

ynadon, gyda llys ychwanegol wedi'i ddynodi'n llys aml-bwrpas. Mae'r prosiect ar y trywydd iawn ar gyfer ei gwblhau ac mae disgwyl i'r adeilad fod yn weithredol erbyn gwanwyn 2027.

Mae'r farnwriaeth wedi bod yn cydweithio'n agos â Chorfforaeth Dinas Llundain a GLITEF wrth i'r gwaith adeiladu barhau, ac i baratoi ar gyfer agoriad yr adeilad llys newydd. Ymwelodd Arglwyddes Ustus Yip a Mr Ustus Cavanagh â'r safle yn Ebrill 2025, ac ymwelodd yr Arglwyddes Brif Ustus â'r safle yn Medi 2025.

# Gweithgarwch Ategol

## Panel Diogelu Data Barnwrol

Mae cynnydd wedi parhau i'w wneud o ran codi ymwybyddiaeth o ofynion diogelu data o fewn y farnwriaeth a sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei oruchwylio gan y Panel Diogelu Data Barnwrol. Ei rôl yw goruchwylio'r ffordd y caiff data personol ei brosesu gan unigolion, llysoedd a thribiwnlysoedd pan fyddant yn gweithredu yn rhinwedd eu swyddogaethau barnwrol.

Mae'r Panel yn adolygu pob digwyddiad data barnwrol er mwyn nodi themâu a llywio cyngor a chanllawiau. Ychydig iawn o ddigwyddiadau a adroddwyd dros y flwyddyn ddiwethaf; ac nid oes unrhyw un ohonynt wedi cael canlyniadau difrifol.

Mae'r Panel hefyd yn ystyried cwynion gan unigolion ynghylch y modd y caiff eu data personol ei brosesu gan lys, tribiwnlys neu unigolyn pan fyddant yn gweithredu yn rhinwedd eu swyddogaethau barnwrol.

## Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Farnwrol

Rhwng Awst 2024 a Medi 2025, darparodd y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Farnwrol (jLIS) dros 29,000 o gyhoeddiadau printiedig i farnwyr yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd.

Mae'r ystod o adnoddau ar-lein a ddarperir i farnwyr wedi parhau i ehangu; mae ganddynt bellach fynediad at ystod cynhwysfawr heb ei ail o adnoddau cyfreithiol ar-lein drwy eLIS, sef y llyfrgell gyfreithiol ar-lein i farnwyr. Mae'r defnydd o gronfeydd data ar-lein yn parhau i gynyddu, ac mae rhaglen hyfforddi eLIS wedi'i hehangu'n unol â hynny, gan ei bod yn hanfodol bod gan farnwyr y sgiliau i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Ar gyfartaledd, mae dros 3,200 o farnwyr yn defnyddio eLIS bob mis; ac mae'r rhif hwnnw'n parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Yn unol â hynny, mae'r ddarpariaeth hyfforddiant wedi cynyddu, a chafodd bron i 1,000 o farnwyr hyfforddiant yn y deuddeg mis diwethaf.

Parhaodd jLIS i gefnogi'r elusen International Law Book Facility (ILBF), sy'n anfon llyfrau cyfreithiol nad ydynt eu hangen mwyach i sefydliadau di-elw ledled y byd. Anfonwyd dros 950 o roddion i Ynysoedd Turks a Caicos, Zimbabwe ac amrywiol lysoedd yn y Caribî. Ar 13 Mai 2025, croesawodd Llyfrgell y Llysoedd Barn Brenhinol farnwyr a swyddogion llyfrgell o Sierra Leone a Nigeria, fel rhan o ymweliad a drefnwyd gan yr ILBF.

Ychwanegwyd ychydig dros 6,000 o ddyfarniadau newydd at y gwasanaeth 'Find Case Law' (FCL) sy'n cael ei gynnal gan yr Archifau Cenedlaethol (TNA), ac mae llawer o benderfyniadau tribiwnlys hefyd yn cael eu trosglwyddo i FCL o systemau TG hanesyddol MoJ. Fel rhan o'r gwaith ehangach ar gyfiawnder agored, mae jLIS hefyd yn paratoi i drosglwyddo 2,000 o drawsgrifiadau papur o'r Llys Apêl (Adran Sifil) (1992-2001) i'r TNA, lle y byddant ar gael i'r cyhoedd.

# Myfyrdodau'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol

## Myfyrdodau Meistr y Rholiau

Fel Meistr y Rholiau a Phennaeth Cyfiawnder Sifil, rwyf wedi parhau i sicrhau fy mod yn blaenoriaethu cefnogi a hyrwyddo'r gwaith o foderneiddio'r system gyfiawnder sifil.

Mae tua 15 miliwn o anghydfodau sifil yn digwydd bob blwyddyn. Yn fy nhystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder a Phwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, rhestrais 38 enghraifft o anghydfodau sifil, gan ddangos ehangder yr awdurdodaeth sifil.

Rwy'n falch o rannu manylion nifer o fentrau diweddar sydd wedi gwella mynediad at gyfiawnder a sydd wedi cyflymu'r broses o ddatrys anghydfodau sifil, gan gynnwys y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain, a'r newidiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil i wreiddio atgyfeiriadau at gyfryngu yn dilyn penderfyniad y Llys Apêl yn Churchill v Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful [2023] EWCA Civ 1416. Serch hynny, mae dal rhagor o waith i'w wneud.

Rwyf wedi parhau i weithio ar y cyd â GLITEF i wneud cynlluniau i ddigideiddio pob hawliad sifil ac wedi nodi tair blaenoriaeth i gyflawni'r nod hwn. Yn gyntaf, parhau â'r broses a ddechreuwyd yn ystod y Rhaglen Ddiwygio i ddileu papur o'r Llys Sirol. Yn ail, disodli CE-file, a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer achosion cymhleth yn yr Uchel Lys a'r Llysoedd Busnes ac Eiddo, gyda system ddigidol ar gyfer rheoli achosion, sy'n gweithio gyda deallusrwydd artiffisial, sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Yn drydydd, parhau i greu'r System Cyfiawnder Digidol cyn-llys sy'n cael ei chreu gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Ar-lein (OPRC), a fydd yn caniatáu i lawer mwy o anghydfodau gael eu datrys yn gyflym ac yn economaidd ar-lein cyn iddynt ddod i mewn i system y llysoedd.

Er mwyn cyflawni'r nod o ddod â chyfiawnder sifil i mewn i'r 21ain ganrif, rhaid inni greu system fodern sy'n addas ar gyfer y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

## Myfyrdodau Llywydd Adran Mainc y Brenin

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd galwadau cynyddol ar Adran Mainc y Brenin. Mae'r KBD, yr wyf yn ei harwain, yn delio ag ystod enfawr o'r achosion sifil anoddaf a mwyaf amlwg i ddod gerbron y llysoedd. Mae'r achosion hyn yn aml yn denu cryn ddiddordeb yn ddomestig ac yn rhyngwladol a gallant

arwain at lawer iawn o graffu gan y cyfryngau a sylwadau cyhoeddus.

Ar ben hyn, mae deddfwriaeth newydd a newidiadau polisi wedi creu llawer o waith ychwanegol i KBD. Mae enghreifftiau'n cynnwys atgyfeiriadau parôl i'r Uchel Lys, diwygiadau i'r drefn Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ac i'r system bresennol o fewnfudo a lloches. Mae newidiadau o'r fath yn rhoi pwysau ar adnoddau barnwrol ac yn gofyn am gymorth gweinyddol ychwanegol a hyfforddiant barnwrol. Yn amlwg, rhaid i'r llysoedd a'r awdurdodaethau yr effeithir arnynt fod ag adnoddau a chyllid digonol. Un o fy mlaenoriaethau eleni fu sicrhau bod goblygiadau adnoddau gyda newidiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn briodol o fewn y Llywodraeth a gweithio gyda GLlTEF i greu systemau newydd ac effeithlon ar gyfer y KBD i gefnogi unrhyw newidiadau a wneir.

Yn ogystal, barnwyr KBD sy'n eistedd yn Llysoedd y Goron ledled Cymru a Lloegr, yn gwrando ar yr achosion troseddol mwyaf anodd a heriol, gwaith sydd o'r pwysigrwydd cyhoeddus mwyaf. At hynny, mae'r rhan fwyaf o farnwyr KBD hefyd yn ysgwyddo cyfrifoldebau arwain sylweddol o fewn y system farnwrol: fel Llywyddion er enghraifft, ac ar faterion fel hyfforddiant barnwrol, amrywiaeth a lles sy'n berthnasol i bob lefel o'r farnwriaeth.

Tra bod barnwyr KBD yn parhau i ddelio â'r pwysau hyn, rhaid rhoi blaenoriaeth i'w diogelwch tra maent yn gwneud eu gwaith. Rwy'n ddiolchgar am y gydnabyddiaeth y mae hyn yn ei gael o fewn y Llywodraeth; ac rwy'n parhau i weithio gyda Gweinidogion a GLlTEF i sicrhau bod barnwyr ar draws yr Uchel Lys, a thu hwnt, yn cael y cymorth a'r sicrwydd sydd ei angen arnynt, yn enwedig wrth weithio yn y gylchdaith.

Fel Dirprwy Bennaeth Trosedd, mae eleni wedi bod yn flwyddyn eithriadol o brysur. Ynghyd ag uwch aelodau eraill o'r farnwriaeth, rwyf wedi ymgysylltu â'r Adolygiad Dedfrydu a'r Adolygiad Annibynnol o Lysoedd Troseddol a gydag arweinwyr ar draws y system cyfiawnder troseddol, mewn perthynas â newidiadau deddfwriaethol sy'n debygol o gael goblygiadau pwysig ar waith y barnwyr yn y blynyddoedd i ddod. Rwyf hefyd wedi parhau i ymweld â Llysoedd y Goron (a llysoedd eraill) ledled y wlad i siarad â barnwyr ar bob lefel. Ar adegau o newid, mae'n hollbwysig ystyried safbwyntiau o bob rhan o'r farnwriaeth a gweld sut mae pethau'n gweithio 'ar lawr gwlad' o hyd.

## Myfyrdodau Canghellor yr Uchel Lys

Un o rannau mwyaf gwerth chweil o fy ngwaith fel Canghellor yr Uchel Lys yw fy rôl fugeiliol o sicrhau bod morâl barnwrol cystal â phosibl. Mae hwn yn faes rydw i wedi'i fwynhau'n arbennig.

Mae canolfannau rhanbarthol, sydd wedi'u lleoli ar draws Cymru a Lloegr, yn rhan ganolog o B&PCs, gan ganiatáu i achosion lleol aros mewn rhannau penodol o'r wlad. Mae hyn wedi galluogi ymarferwyr yn y rhanbarthau hynny i ymdrin â'r maes arbenigol hwn o'r gyfraith a hyrwyddo rheolaeth y gyfraith ledled y wlad.

Rwyf wedi parhau i ymweld â'r canolfannau rhanbarthol yn rheolaidd, gan dreulio amser gyda'r farnwriaeth i gynyddu morâl, siarad â'r staff i drafod materion lleol, ac ymgysylltu ag ymarferwyr lleol i annog gwrando

achosion yn y rhanbarthau. Mae treulio amser yn ymweld â'r canolfannau rhanbarthol wedi arwain at gynnydd yn y Fforymau B&PC lleol, gan ddod â'r gymuned gyfreithiol ynghyd i rannu mewnwelediadau ar faterion amserol, a chryfhau gwaith a pherthnasoedd y proffesiwn a'r farnwriaeth yn yr ardaloedd hyn.

Ar ôl blynyddoedd o lobïo dros le addas, roeddwn yn falch o gael ymuno â'r LCJ i agor y llysoedd B&PC newydd yn Leeds ym mis Hydref 2024.

## Myfyrdodau Llywydd yr Adran Deulu

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn mae canlyniadau cadarnhaol wedi cael eu cofnodi ar draws y system Cyfiawnder Teuluol o ganlyniad i amrywiaeth o fentrau gyda'r nod o leihau'r galw a chynyddu effeithlonrwydd. Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i gyflawni'r mentrau hyn. Mae'r canlyniadau cadarnhaol a welwn yn awr yn ffrwyth eu hymdrech ar y cyd.

Mae nifer y ceisiadau cyfraith gyhoeddus wedi lleihau, ac, yn dilyn ail-lansio'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ('PLO') ym mis Ionawr 2023, mae hyd achosion yn lleihau. Y canlyniad yw bod nifer yr achosion cyfraith gyhoeddus agored bellach yn ôl i lefel a welwyd ddiwethaf cyn y pandemig.

Ym maes cyfraith breifat, unwaith eto, mae'r llwyth achosion agored wedi lleihau i lefelau 2019. Y datblygiad mawr mewn cyfraith breifat fu cyflwyno 'Llysoedd Braenaru', sydd wedi trawsnewid ymgysylltiad y llys â rhieni sy'n dadlau i fodel wedi'i anelu at ddatrys problemau yn seiliedig ar adroddiad clir cynnar o lais y plentyn. Ym mis Chwefror, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i ehangu'r model i bedair ardal Barnwr Teulu Dynodedig arall – Wolverhampton, Caerwrangon, Stoke-on-Trent a Hampshire ac Ynys Wyth – erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2025/2026. Prif nod y Cynllun Braenaru yw darparu llwybr gwell, a mwy diogel, at ddatrys anghydfod. Mae gwaith gweithwyr proffesiynol cam-drin domestig lleol wedi'i wreiddio yng ngweithrediad y llysoedd hyn. Fodd bynnag, mantais eilaidd yw bod angen llai o amser y llys ar y Cynllun Braenaru, gan ryddhau barnwyr ac amser y llys i'w ddefnyddio ar gyfer gwaith arall.

Daeth y Peilot Adrodd i ben yn llwyddiannus, ac mae pob Llys Teulu bellach yn gweithredu ar y sail, os bydd newyddiadurwr yn mynychu gwrandawiad, mae'n debyg y gwneir gorchymyn sy'n caniatáu adrodd ar yr achos, yn amodol ar gyfyngiadau clir i warchod enwau'r partïon.

Mae nifer y bobl ifanc sy'n gofyn am awdurdodiad gan Adran y Teulu fel y gall gwasanaethau cymdeithasol gyfyngu ar eu rhyddid er mwyn eu diogelu rhag niwed yn parhau i fod yn achos o bryder mawr. Yn 2018, pan gefais fy mhenodi'n Llywydd, 280 o geisiadau a dderbynnir bob blwyddyn; erbyn hyn mae'r ffigur hwnnw'n agosach at 1,300.

Mae cyllido'r Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) yn parhau i fod yn fater parhaus; o ganlyniad, pan fo lleoliad FDAC newydd yn agor (er enghraifft yn ddiweddar yn Lerpwl a Northampton), mae lleoliad arall yn gorfod cau (Newcastle).

## Myfyrdodau'r Uwch Farnwr Llywyddol

Cefais fy mhenodi'n Uwch Farnwr Llywyddol (SPJ) ym mis Hydref 2024, ochr yn ochr â Mrs Ustus Amanda Yip (bellach Arglwyddes Ustus Yip) fel fy nirprwy. Fel SPJ, rwy'n darparu cefnogaeth, arweinyddiaeth a chyfarwyddyd i farnwriaeth y llysoedd ac i'r ynadon ar draws Cymru a Lloegr ac, yn benodol, i'r barnwyr arweiniol. I bob pwrpas, mae fy rôl yn cyfateb i rôl "Brif Swyddog Gweithredu" i'r Arglwyddes Brif Ustus, gan fy mod yn delio â materion dydd i ddydd sy'n effeithio ar y farnwriaeth a gweithrediad y llysoedd. Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â phenodi a lleoli barnwyr, diogelwch barnwrol, ystad y llysoedd, a pherfformiad cyffredinol y llysoedd. Mae gennyf hefyd awdurdod dirprwyedig dros weithrediad y llysoedd ynadon a lles a hyfforddiant ynadon.

Mae llawer i fyfyrio arno wrth inni gyrraedd diwedd fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd. Un o fy mlaenoriaethau fu cryfhau rôl y Grŵp Gwella Llysoedd Troseddol (CCIG) a sefydlu cyfres o brosiectau i gyflwyno gwelliannau sylweddol i brosesau'r llysoedd troseddol. Mi wnes i hefyd lansio adolygiad o lywodraethiant yr ynadaeth yn gynharach eleni, gyda'r nod o symleiddio ac egluro'r strwythurau gwneud penderfyniadau a sicrhau bod y trefniadau cywir ar waith i ymdrin â'r newid sylweddol sydd ar y gorwel. Bydd y ddau faes hyn yn parhau'n ganolbwynt pwysig i mi wrth inni fynd i mewn i'r flwyddyn nesaf, er mwyn cynnal y momentwm a gweithredu'r newidiadau'n effeithiol.

Mae diogelwch y farnwriaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac yn faes o bryder parhaus. Rydym yn gweld gormod o achosion o farnwyr yn profi bygythiadau ac aflonyddwch, yn gorfforol ac ar-lein. Lansiwyd hyfforddiant diogelwch newydd ar gyfer y farnwriaeth ym mis Gorffennaf, ac ym mis Mawrth lansiwyd Tasglu Diogelwch newydd, o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy SPJ, i werthuso a gwella'r trefniadau ar gyfer diogelwch barnwrol.

Ym mis Hydref, mi osodais darged i mi fy hun a'r Dirprwy SPJ i ymweld â phob un o'r chwe cylchdaith yng Nghymru a Lloegr dros ein tymor o ddwy flynedd. Rhyngom, rydym wedi ymweld â mwy na 20 o lysoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac rydym wedi mwynhau'n fawr y cyfle i gwrdd â barnwyr, ynadon a staff, ac i weld sut mae pethau'n gweithredu o ddydd i ddydd. Rydym yn ddiolchgar i bawb a wnaeth ein croesawu a sicrhau llwyddiant yr ymweliadau hyn.

## Myfyrdodau Arglwyddes Ustus Whipple

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn brysur iawn! Fel y barnwr arweiniol dros amrywiaeth a chynhwysiant, rwy'n cadeirio Pwyllgor Amrywiaeth Barnwrol Cyngor y Barnwyr. Yn dilyn diwrnod cwrdd i ffwrdd llwyddiannus iawn yn 2024, sefydlwyd pum Gweithgor newydd yn ddiweddar i gan ganolbwyntio ar gynhwysiant cymdeithasol, hil, anabledd, LGBTQ+, a menywod. Drwy sicrhau cynnydd yn y meysydd hyn, byddwn yn cynyddu amrywiaeth ac yn helpu i feithrin amgylchedd cynhwysol i bawb.

Rwy'n falch o adrodd am ymgysylltiad cadarnhaol gan amryw o ddeiliaid swydd barnwrol a fynychodd fy nghyfarfodydd bord gron ar amrywiaeth a chynhwysiant yn 2024, gan roi cyfle i mi wrando a dysgu, a nodi'r materion mwyaf brys sydd angen newid; mae'r sesiynau hynny wedi cyfrannu at fy ngwaith yn 2025 a thu hwnt. Yn 2025 symudodd ffocws y byrddau crwn hyn i sesiynau ymgysylltu i gefnogi datblygiad y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Barnwrol nesaf ar gyfer 2026 - 2030.

Rydym yn parhau i weithio'n galed i sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol lle caiff pawb eu trin â pharch ac urddas. Rydym wedi ymgorffori ein hyfforddiant cynhwysiant ac wedi'i ymestyn i bob deiliad swydd barnwrol, ar ddechrau eu gyrfa farnwrol ac fel rhan o'u hyfforddiant parhaus. Rydym wedi hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion cynhwysiant trwy erthyglau ar fewnrwyd y farnwriaeth, sgyrsiau a thrafodaethau, a drwy annog datblygiad arddull arweinyddiaeth gynhwysol. Bydd y gwaith hwn yn gwella ein gallu i wireddu'r weledigaeth o fod yn "Un Farnwriaeth".

Mae llawer o ddeiliaid swydd barnwrol yn gweithio'n galed gan ymgymryd â gwaith allgymorth, gyda'r nod o gynyddu amrywiaeth yn y farnwriaeth. Mae gan ein Barnwyr Amrywiaeth a Chysylltiadau Cymunedol (DCRJs) a'n Ynadon gyfrifoldeb penodol yn hyn o beth. Mae yna sawl enghraifft rhagorol o'u gwaith. Un fenter benodol sydd werth ei chrybwyll yw'r rhaglen a ddatblygwyd gan DCRJs yng Ngogledd-orllewin Lloegr gan weithio gyda Phrifysgol Metropolitan Manceinion. Maent wedi cynnig gwasanaeth cysgodi i fwy na 200 o fyfyrwyr. Ein nod yw targedu gweithgareddau allgymorth lle mae eu hangen fwyaf, gan ymgysylltu â chymunedau sydd ar hyn o bryd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y farnwriaeth. Mae ein DCRJs yn cael eu harwain yn fedrus gan ein DCRJ arweiniol newydd, Llywydd y Tribiwnlys Haen Gyntaf, Siambr Hawl Cymdeithasol, Elizabeth McMahon.

Mae barnwyr arweiniol yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu diwylliant gwaith cadarn ac wrth feithrin gyrfaoedd aelodau eu tîm. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld gwelliant yn y trefniadau mentora i farnwyr arweiniol a chyfleoedd iddynt dderbyn adborth 360°. Rydym hefyd wedi cynnal cwrs hyfforddi ar gyfer arweinwyr uwch. Mae'r Fframwaith Sgiliau a Galluoedd Barnwrol newydd yn fwy penodol am y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer arweinyddiaeth farnwrol. Mae arweinyddiaeth dda yn allweddol i lawer o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ac sydd eto i'w gyflawni ym maes amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae fy rôl fel barnwr arweiniol dros lesiant barnwrol yn cyd-fynd yn naturiol â fy mhortffolio o gyfrifoldebau eraill. Mae'n bwysig bod llesiant y farnwriaeth yn parhau'n flaenoriaeth. Rwy'n cyfarfod bob tymor gydag AD Barnwrol a Chadeirydd Pwyllgor Adnoddau Dynol Barnwrol i adolygu data llesiant ac asesu mentrau i sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i bob deiliad swydd barnwrol.

Rydym wedi dadansoddi data Arolwg Agweddau Barnwrol 2024 yn ofalus, i sicrhau bod ein mentrau polisi ym mhob un o'r meysydd uchod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymateb i dystiolaeth.

## Myfyrdodau Arglwyddes Ustus King

Cafodd y Coleg Barnwrol flwyddyn heriol a llwyddiannus, gan gyflwyno rhaglen sylweddol o hyfforddiant ac adnoddau ar gyfer 24,000 o ddeiliaid swydd ar draws y farnwriaeth.

Parhaodd y Coleg i ganolbwyntio ar ddarparu addysg farnwrol o safon uchel i gefnogi'r farnwriaeth o'r penodiad ymlaen ac yn ystod pob cam gyrfa. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd ymrwymiad cadarn i hyfforddiant i hyrwyddo cynhwysiant, datblygu arweinyddiaeth ac ymateb i anghenion newidiol yr ynadaeth.

Heb ymroddiad y barnwyr sy'n cyfrannu eu harbenigedd at ddylunio a darparu hyfforddiant, gwaith caled staff y Coleg, a brwdfrydedd ac ymrwymiad pawb sy'n mynychu'r hyfforddiant, ni fyddai llwyddiannau'r Coleg yn bosibl. Diolch i bawb.

# Geirfa

**Cylchdaith:** rhennir llysoedd Cymru a Lloegr yn chwe rhanbarth daearyddol, a elwir yn ‘gylchdeithiau’ neu’n ‘gylchdaith’. Y rhanbarthau hyn yw Canolbarth Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd Lloegr, De-ddwyrain Lloegr, Cymru a Gorllewin Lloegr.

**Llys Sirol:** mae’n delio â materion sifil (sydd ddim yn droseddol), lle mae unigolion neu fusnes yn credu bod eu hawliau wedi’u torri.

**Llys Apêl:** y llys uchaf o fewn Uwch Lysoedd Cymru a Lloegr; mae’n ymdrin ag apeliadau gan lysoedd neu dribiwnlysoedd eraill yn unig. Fe’i rennir yn ddwy Adran, sef yr Adran Droseddol a’r Adran Sifil.

**Llys y Goron:** mae’n delio â’r troseddau mwyaf difrifol. Mae’n eistedd mewn dros 70 o ganolfannau llys ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys y Llys Troseddol Canolog, sef ‘The Old Bailey’.



**Uchel Lys:** mae'n delio yn y lle cyntaf â phob achos cyfraith sifil (nad yw'n droseddol) sydd o werth uchel a phwysig, ac mae hefyd ag awdurdodaeth oruchwyliol dros bob llys a thribiwnlys is, gyda rhai eithriadau statudol. Mae yna dair adran yn yr Uchel Lys: Adran Mainc y Brenin, yr Adran Deulu, a'r Adran Siawnsri.

**Ymgyfreithiwr drosto'i hun (LiP):** unigolyn, cwmni neu sefydliad sy'n mynd i'r llys heb gynrychiolaeth gyfreithiol gan gyfreithiwr neu fargyfreithiwr.

**Ardaloedd cyfiawnder lleol (LJAs):** Mae ardaloedd cyfiawnder lleol yn creu ffiniau daearyddol ar gyfer pedwar prif gydran o weinyddiaeth y Llysoedd Ynadon: cychwyn a rhestru achosion; talu a gorfodi dirwyon, gorchmynion dedfryd ohiriedig, gorchmynion cymunedol a gorchmynion adsefydlu ieuenctid; recriwtio ynadon; a dyrannu ynadon. Maent hefyd wedi'u cysylltu â threfniadau arweinyddiaeth a hyfforddiant ynadon. Mae yna 75 o LJAs, a elwir yn feinciau, sydd â rhwng un a phum llys ynadon yr un. Bydd LJAs yn cael eu diddymu pan ddaw adran 45 Deddf Adolygiad Barnwrol a'r Llysoedd 2022 i rym yn dilyn ymgynghoriad.

**Ynadon:** aelodau gwirfoddol hyfforddedig o'r gymuned leol sy'n gwneud penderfyniadau mewn achosion troseddol a theulu yn y Llysoedd Ynadon a'r Llys Teulu. Mae'r achosion mwyaf cymhleth yn y Llysoedd Ynadon yn cael eu gwrando gan Farnwyr Rhanbarth proffesiynol.

**Llysoedd Ynadon:** maent yn delio ag oddeutu 95% o achosion troseddol ac mae bron pob achos troseddol yn dechrau yn y Llys Ynadon. Caiff y troseddau mwy difrifol eu trosglwyddo i Lys y Goron, naill ai ar gyfer dedfrydu ar ôl i'r diffynnydd gael ei ganfod yn euog yn y Llys Ynadon, neu ar gyfer treial gerbron barnwr a rheithgor.

**Cyfraith breifat:** achosion sy'n ymwneud â materion rhwng unigolion lle nad yw'r wladwriaeth yn ymwneud yn uniongyrchol, e.e. perthnasau rhwng gŵr a gwraig neu rhiant a plentyn, ac anghydfodau sy'n deillio o eiddo, contractau, camweddau sifil, ymddiriedolaethau, etifeddiaeth ac ati.

**Cyfraith gyhoeddus:** rhan o'r gyfraith sy'n ymwneud â rôl y wladwriaeth. Mae'n llywodraethu ymddygiad cyrff cyhoeddus (gan gynnwys llywodraeth ganolog a llywodraeth leol) ac yn rheoleiddio'r berthynas rhwng unigolion a gwahanol ganghenni'r wladwriaeth.

**Barnwr Llywyddol:** Barnwyr yr Uchel Lys sy'n gyfrifol am ddyrannu barnwyr ac achosion o fewn eu Cylchdaith. Maent hefyd yn gyfrifol am oruchwyliaeth gyffredinol dros farnwyr yn eu cylchdaith.

**Barnwyr Preswyl:** uwch farnwyr cylchdaith sy'n goruchwylio gweinyddiaeth a rheolaeth llys unigol neu gyfres o lysoedd.

**Gweithdrefn Un Ynad:** cyflwynwyd y broses hon gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015 yng Nghymru a Lloegr. Mae'n caniatáu i un ynad, gyda chefnogaeth gan gynghorydd cyfreithiol, ddelio ag achosion llai difrifol nad ydynt yn destun dedfryd o garchar heb fod angen gwrandawiad llys, oni bai bod y diffynnydd yn dewis mynychu'r llys.

# Llyfryddiaeth

**Tudalen 16**

**Cyngor Dedfrydu Cymru a Lloegr**

https://sentencingcouncil.org.uk/

**Tudalen 17**

**Adroddiad Blynyddol Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd**

https://www.judiciary.uk/guidance-and-resources/launch-of-the-senior-president-of-tribunals-annual-report-2024/

**Tudalen 18**

**Adroddiad Blynyddol y Prif Grwner**

https://www.gov.uk/government/publications/chief-coroners-annual-report-2024

**Tudalen 21**

**Adroddiad blynyddol y llynedd gan yr Arglwyddes Brif Ustus**

https://www.judiciary.uk/guidance-and-resources/lady-chief-justices-report-2023-2024-adroddiad-yr-arglwyddes-brif-ustus-2023-2024/

**Tudalen 24**

**Datganiad Ymarfer ar gyfer Cynlluniau Trefniant a Chynlluniau Ailstrwythuro Canghellor yr Uchel Llys – Datganiad Ymarfer diwygiedig a gyhoeddwyd ar 18 Medi 2025**

https://www.judiciary.uk/guidance-and-resources/practice-statement-from-the-chancellor-of-the-high-court-part-26-of-the-companies-act-2006/

**Tudalen 27**

**Canllaw ar gyfer Achosion yn Adran Droseddol y Llys Apêl**

https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2024/05/Guide-to-proceedings-in-the-CACD-May-2024-Final.pdf

**Tudalen 31**

**Adroddiad Blynyddol y Cyngor Dedfrydu**

https://sentencingcouncil.org.uk/media/0iujbe5z/sentencing-council-annual-report-2024_25.pdf

**Tudalen 41**

**Independent review of bullying and harassment at the Bar**

https://www.barcouncil.org.uk/support-for-barristers/bullying-and-harassment/review.html

**Ymateb yr Arglwyddes Brif Ustus i'r Independent Review of Bullying, Harassment and Discrimination at the Bar**

https://www.judiciary.uk/lady-chief-justices-response-to-the-independent-review-of-bullying-harassment-and-discrimination-at-the-bar/

**Tudalen 47**

**Adroddiadau gweithgareddau blynyddol y Coleg Barnwrol**

https://www.judiciary.uk/about-the-judiciary/training-support/judicial-college/archive-of-old-reports/

**Tudalen 48**

### Canllaw DA Barnwrol

https://www.judiciary.uk/guidance-and-resources/artificial-intelligence-ai-judicial-guidance-2/

**Tudalen 51**

### Fideos 'Pwy ydw i i farnu?'

https://www.youtube.com/playlist?list=PLEF1_bG92bxuHR81OWdSaYHS-YU-AldJ3

**Tudalen 52**

### Dyfarniadau a sylwadau dedfrydu

https://www.judiciary.uk/judgments/

**Tudalen 57**

### Strategaeth Ryngwladol

https://www.judiciary.uk/guidance-and-resources/judicial-strategy-for-international-engagement-2025%e2%80%9129/

**Tudalen 61**

### Adroddiad Blynyddol y Prif Grwner

https://www.gov.uk/government/publications/chief-coroners-annual-report-2024

**Tudalen 62**

### Adroddiad Blynyddol y Prif Grwner

https://www.gov.uk/government/publications/chief-coroners-annual-report-2024



ISBN 978-1-5286-6029-7

E03454262